www.ecorwyddfa.co.uk

# ECO'r Wyddfa

£1

RHIF 508
Ionawr
2023

# Addunedau i 2023?

Wrth i ni baratoi rhifyn Ionawr 2023 *Eco'r Wyddfa*, cyhoeddwyd rhai o ystadegau Cyfrifiad 2021. Doedd dim syndod gwaetha'r modd fod gostyngiad yn nifer siaradwyr Cymraeg unwaith eto, wrth i'r ganran ddisgyn mewn degawd o 19% i 17.8%.

Yma ym mro'r Eco neu gerllaw mae nifer o'r cymunedau gyda'r ganran uchaf o siaradwyr Cymraeg – rydyn ni mor eithriadol o ffodus ein bod yn byw yn yr ardal arbennig ac unigryw hon. Fe fu gostyngiad yn nifer y siaradwyr Cymraeg yn yr ardal er hynny, ac mae'n anodd gwybod sut y gallwn gael effaith ar y ffactorau sy'n gwasgu ar ein iaith a'n cymunedau, megis tai fforddiadwy i'n pobl ifanc a swyddi da a deniadol.

Mae un peth y gallwn ni ei wneud fodd bynnag, a hynny yw helpu o fewn ein pentrefi i adeiladu cymunedau hapus, cymdeithasol, cryf a Chymraeg. Mae'r rhifyn hwn o'r Eco yn llawn o hanesion gwirfoddolwyr gwych o fewn ein cymunedau i'ch ysbrydoli!

Beth am i ni i gyd wneud addunedau ar ddechrau blwyddyn newydd i wirfoddoli o fewn ein cymuned er mwyn gwarchod ein hardal arbennig a'n hiaith – a mwynhau wrth wneud!

**Map 4: Newid yng nghanran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl ACEHIau, 2011 i 2021**






**Map 3: Canran y bobl tair oed neu'n hŷn sy'n gallu siarad Cymraeg, yn ôl ACEHIau, 2021**









## Menter Cymunedol Perthyn

Mae menter gymunedol wedi ei sefydlu ym Methel yn ddiweddar i gefnogi Caffi Perthyn yn y pentref; enghraifft arall o wirfoddolwyr gwych o fewn ein bro. Mae'r caffi sydd wedi ei leoli yn y Bedol wedi bod yn llwyddiannus ym mhentref Bethel ond gyda chostau byw yn codi mae'r busnes yn wynebu heriau newydd.

Byddai'n siomedig i weld drysau Caffi Perthyn yn cau a byddai'r pentref a'r ardal yn gweld colled o leoliad canolog i drigolion y fro gymdeithasu.

Oherwydd pryderon am effaith cau'r caffi ar y gymuned, daeth grŵp cymunedol bychan o wirfoddolwyr at ei gilydd i sefydlu Menter Cymunedol Perthyn, gan ffurfio pwyllgor llywio.

Eu hamcanion yn syml yw: "I gynnal a chadw Caffi Perthyn yn agored gan ddatblygu a ehangu i agor siop gymunedol draddodiadol Gymreig, mewn iaith ac ethos er lles y gymuned ac er pleser i unrhyw un sydd yn dymuno dod i mewn drwy ei drysau."

Er mwyn gwireddu'r fenter hon, mae Menter Cymunedol Perthyn yn gobeithio codi arian i gychwyn y Fenter ac i agor drysau Caffi Perthyn cyn gynted a phosib i sicrhau gallu gwneud ceisiadau i dderbyn grantiau tymor hir. Maent yn galw ar gyfraniadau ariannol i dudalen Go Fund y fenter: https://gofund.me/789cfb8a

"Gwerthfawrogwn ei bod hi yn amser anodd i bawb ond byddwn yn gwerthfawrogi unrhyw gyfraniad."

**Elin Enfys**

**Chwilio am Elin Enfys**

**Ble mae Elin Enfys? Dewch o hyd iddi'n cuddio mewn 8 lle yn y papur.**



## Yn y rhifyn hwn:

- Clwb Snwcer Llanrug - tud 15
- Adeiladu Rheilffordd yr Wyddfa - tud 16
- Dyddiadur Waunfawr 1940 - tud 18
- Crwydro Gerddi Botaneg Singapore - tud 19
- Chwiban olaf ein gohebydd chwaraeon - tud 28

www.ecorwyddfa.co.uk
ECO'r Wyddfa

## SWYDDOGION A GOHEBWYR

**Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith**
Tony Elliott
Bwlch Cae Mawr, Deiniolen LL55 3LU.
07798 552238.
tonyelliott17@yahoo.com

**Golygydd Chwaraeon**
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Golygydd yr Ifanc**
Marged Rhys –marged_3@hotmail.com

**Ffotograffydd**
Gwyndaf Hughes
Hafan, Ffordd Glanmoelyn, Llanrug.
01286 672221.
glasgoed@hotmail.com

**Trefnydd Hysbysebion a Dosbarthu**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug. 01286 673838.
hefsj@aol.com

**Trefnydd Ariannol**
Goronwy Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Gwerthiant Post**
Olwen Hughes
Eithinog, 14 Afon Rhos, Llanrug.
01286 674839.

**Trefnydd Bwndelu**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Dylunydd**
Elgan Griffiths – post@elgangriffiths.com

## GOHEBWYR PENTREFI

**Bethel**:
Richard Ll Jones
5 Y Ddôl, Bethel. 01248 670115.
richard.llwyd@yahoo.co.uk

**Brynrefail:**
Lowri Prys Roberts
Godre'r Coed, Brynrefail.
01286 870580.
lowri-prys@supanet.com

**Caeathro:**
Lowri Ceiriog
4 Erw Wen, Caeathro.
lowriceiriog@hotmail.co.uk

**Deiniolen:**
Nia Gruffudd
3 Hafod, Clwt y Bont. 01286 870394.
glyn.gruffudd@btinternet.com

**Dinorwig:**
Marian Jones
Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig.
01286 870292.

**Llanberis:**
Eifion Roberts
Swn y Gwynt, Llanberis.
01286 870740.
eifionroberts132@btinternet.com

**Llanrug:**
Ffion Orwig
Tre Ceiri, 9 Pen Cae, Llanrug
Ffôn: 07813 299727
Ebost: ffionorwig@hotmail.com

**Nant Peris:**
Kate Pritchard – 01286 870189.
econantperis@hotmail.com

**Penisarwaun:**
Swydd y gohebydd yn wag ar hyn o bryd

**Waunfawr:**
Iola Gruffydd
iolallew@hotmail.co.uk

**Blwyddyn Newydd Dda!**



# Panel Golygyddol

Aelodau: Beca Brown, Nesta Elliott, John Pritchard, Marged Rhys, Bethan Richardson, Catrin Roberts, Mared Roberts.

Anfonwch eich straeon, newyddion, erthyglau a lluniau ar e-bost i ecorwyddfa@gmail.com os gwelwch yn dda, neu newyddion pentref yn uniongyrchol at y Gohebwyr Pentrefi isod.

Rydym yn croesawu erthyglau hyd at 600 gair o hyd ac mae angen anfon unrhyw luniau atom fel ffeiliau ar wahân. Os hoffech drafod eich cynnwys, mae croeso i chi gysylltu â Nesta Elliott ar 07825 586658

# Rhoddion

*Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru*

£10 Ann Ellis-Williams, Y Dderwen Fach, Bethel
£30 Er cof am Les Orritt, Morannedd, Cwm y Glo oddi wrth Hilda a'r teulu
£20 Er cof annwyl am Emma Barnard gan y teulu
£30 Eryl Roberts, 56 Glanffynnon, Llanrug
£50 Dilys Mai Roberts, Yr Haciau, Penisarwaun

Annwyl ddarllenwyr

Ysgrifennaf atoch o'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol yn y gobaith y bydd y wybodaeth isod o ddiddordeb.

Rydym eisiau lledaenu'r gair fod ysgoloriaeth gwerth hyd at £2,000 ar gael i fyfyrwyr sydd â diddordeb mewn gwybod mwy am fod yn diwtor Dysgu Cymraeg i oedolion neu athro / athrawes Cymraeg.

Mi fyddwn yn talu £500 yr wythnos i ymgeiswyr llwyddiannus, gan gynnig pythefnos yng Nghaerdydd yn dysgu mwy am faes Dysgu Cymraeg i oedolion a phythefnos mewn ysgol uwchradd yn arsylwi gwersi Cymraeg. Mi all ymgeiswyr llwyddiannus ddewis faint o wythnosau maen nhw'n dymuno eu gwneud.

Mae yna alw cynyddol am diwtoriaid ac athrawon Cymraeg ledled Cymru, ac rydym angen cyflenwad cyson o dalent newydd.

Mi all myfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnc wneud cais – 'dyn ni'n chwilio am bobl ifanc all ysbrydoli eraill i ddysgu a siarad Cymraeg, gyda sgiliau cadarn yn y Gymraeg eu hunain.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 31 Ionawr, 2023 ac mae modd gwneud cais trwy wefan y Ganolfan – dysgucymraeg.cymru

Diolch ymlaen llaw a chofion gorau

Helen Prosser,
Cyfarwyddwr Dysgu ac Addysgu y Ganolfan.

## Apêl am Grosiwyr a Gweuwyr i helpu gyda Phrosiect Eisteddfod

Dewch i helpu!

Ydych chi'n gallu gweu neu grosio? Os felly, mae'r Eisteddfod Genedlaethol yn awyddus i'ch cynnwys chi mewn prosiect newydd sbon sy'n rhan o'r paratoadau ar gyfer yr ŵyl yn Llŷn ac Eifionydd y flwyddyn nesaf.

Bwriad *Gair mewn Gwlân* yw dathlu rhai o'r enwau hyfryd sy'n rhan o'n treftadaeth yma yng Ngwynedd. Gan ddechrau'n lleol a gweithio am allan ar draws y dalgylch, mae'r trefnwyr am gofnodi enwau porthoedd, tyllau crancod, chwareli, ponciau, afonydd, caeau, ffermydd, a llawer mwy. Y gobaith hefyd yw ail-ddarganfod ambell enw sydd wedi mynd yn angof dros y blynyddoedd.

Mae'n gyfle i bobl o bob oed ddod at ei gilydd neu weithio'n annibynnol – beth bynnag sy'n gweithio i'r crosiwyr a'r gweuwyr – i greu sgwariau 8"x8", naill ai wedi'u gweu neu eu crosio, mewn unrhyw bwyth, ac mewn gwlân dk neu 'chunky'. Y nod yw creu pecynnau o 64 sgwâr er mwyn creu cefnlen / murlun yn ein cymunedau ar hyd a lled y dalgylch, gydag ysgolion lleol yn arwain y gwaith.

Yr ysgolion fydd hefyd yn dewis pa eiriau ac enwau maen nhw am eu harddangos, gan wahodd y gymuned i ymuno er mwyn pwytho neu smwddio'r enwau ar y gwlân o'r pecynnau *Gair mewn Gwlân* i'w harddangos yn yr ysgol neu'r gymuned leol.

Hoffi'r syniad? Beth am ymuno â ni heddiw? Ffoniwch eich cyswllt lleol i gael gwybod mwy, neu beth am gynnig gwlân i'n helpu ni i greu digon o sgwariau ar gyfer ysgolion y dalgylch? Ac os ydych chi'n byw mewn rhan arall o Gymru – neu du hwnt – anfonwch e-bost at gwyb@eisteddfod.cymru am ragor o wybodaeth.

**Cysylltiadau lleol:**
**Arfon:** Anwen – 07899 988 100 | Gwenan – 07725 589 106
**Eifionydd:** Carys – 07794 533 190 | Delyth – 07760 343 400
**Llŷn:** Esyllt – 07919 084 524 | Rhian – 07833 516 584

Cynhelir Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd ym Moduan ger Pwllheli o 5-12 Awst 2023. Am ragor o wybodaeth ewch i www.eisteddfod.cymru.

# Dyddiadau i'w cofio...

| Rhifyn | Dyddiad cau derbyn cynnwys (ail ddydd Gwener yn y mis) | Dyddiad cyhoeddi (pedwerydd dydd Gwener yn y mis) |
|---|---|---|
| Chwefror | 13 Ionawr | 27 Ionawr |
| Mawrth | 10 Chwefror | 24 Chwefror |
| Ebrill | 10 Mawrth | 24 Mawrth |

Annwyl darllenwyr Eco'r Wyddfa,

Mae Uned Iaith Cyngor Gwynedd wedi datblygu map rhyngweithiol er mwyn i glybiau a chymdeithasau cyfrwng Cymraeg Gwynedd allu hysbysebu eu gweithgareddau, ac er mwyn bod yn ffordd hwylus i bobl ddod o hyd i weithgareddau yn eu hardal leol.

Rydym yn gofyn i unrhyw glybiau neu gymdeithasau sydd yn cyfarfod yn rheolaidd yng nghymunedau'r sir, ac sydd yn croesawu aelodau newydd, i gofnodi gwybodaeth ar y map. Does dim gwahaniaeth pwy yw'r gynulleidfa, dim ond eich bod yn cynnal gweithgareddau yn Gymraeg ac yn cyfarfod yn rheolaidd – bob wythnos neu bob mis – rhywle yng Ngwynedd.

Byddem yn ddiolchgar iawn petai modd i chi rannu y linc isod gyda'ch canghennau neu swyddogion lleol a gofyn iddynt lwytho gwybodaeth am eich gweithgareddau ar y map.

Map Gweithgareddau (llyw.cymru)

Os bydd unrhyw broblemau efo mewnbynnu gwybodaeth, cysylltwch efo ni ar iaith@gwynedd.llyw.cymru

Diolch yn fawr, a chofion,

Ant Evans
Swyddog Iaith Cynorthwyol.
Uned Iaith a Chraffu
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl
Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH




Annwyl Olygyddion yr Eco,

Cefais fy annog i ymchwilio ac ysgrifennu erthygl am 'stric' a gafwydd o hyd iddo yn y Fachwen. Mae'r erthygl bellach wedi ei gyhoeddi yn rhifyn gyfredol o '**Fferm a Thyddyn**'.

Mae'r llythrennau HH ag OH wedi eu llosgi ar garn y 'stric' ac rwy'n gofyn yn yr erthygl tybed a oes gan rhywun wybodaeth am y perchnogion lleol posib yma.

Meddyliais wedyn tybed fydddai un o ddarllenwyr Eco'r Wyddfa yn gallu cynnig sylwadau? Yn sicr byddai'n ddifyr ychwanegu at yr hanes. Gallwch anfon eich sylwadau ataf fi ar rhisiartaprhys@sky.com neu e-bostio'r Eco ar ecorwyddfa@gmail.com

Cofion,
Rhisiart ap Rhys.

# Yn ystod y mis a aeth heibio...

- **Beicio.** Gwraig 72 oed o Sweden – Dorothee Hildebrandt – wedi beicio'r holl ffordd o'i chartref i'r Aifft i gynhadledd COP27; pedwar mis o daith. Aeth yno i annog gweithredu ynglŷn â newid hinsawdd. Roedd yn aros gyda ffrind, ac yn beicio naw milltir yn ddyddiol i'r gynhadledd i gyfarfod ymgyrchwyr eraill.
- **Ffilmio**. O 'Doctor Who' i 'Harry Potter', mae llawer o raglenni teledu a ffilmiau poblogaidd wedi eu cynhyrchu yng Nghymru. Yn ôl Cymru Greadigol mae dros 900 o ymholiadau wedi eu derbyn ers 2020 ynglŷn â lleoliadau ffilmio yng Nghymru; a gwerth £575 miliwn wedi dod i'r economi leol. Mae mwy o stiwdios cynhyrchu yng Nghymru nac unman ym Mhrydain ar wahân i Lundain.
- **Maes Awyr**. Mae arwydd yn cyfeirio teithwyr i Faes Awyr Rhyngwladol Llandegla ym Mhowys wedi creu difyrrwch (a phenbleth i ambell un) ers 2002, oherwydd nad oes maes awyr yno o gwbl. Dros yr ugain mlynedd diwethaf bu'n denu ymwelwyr i'r ardal i gael tynnu eu llun o'i flaen! Y gobaith bellach yw y bydd yr Awdurdod Lleol yn camu i mewn i gynnal a chadw'r arwydd i'r dyfodol.
- **Cymdogion.** Ym mis Gorffennaf 2022 daeth y rhaglen deledu boblogaidd 'Neighbours' i ben wedi 37 mlynedd o ddarlledu. Erbyn hyn cafwyd ar ddeall fod cwmni Amazon yn bwriadu ei hatgyfodi.
- **Big Ben**. Mae'r clychau'n canu unwaith eto ar ôl bod yn ddistaw ers 2017 oherwydd gwaith adnewyddu a thrwsio.
- **Pysgodyn aur**. Pysgotwr o Brydain ar wyliau pysgota mewn llyn yn Ffrainc yn dal y pysgodyn aur mwyaf erioed i'w gofnodi. Roedd yn pwyso dros 30kg.
- **Pwdin.** Nain o Barnsley wedi coginio anferth o Bwdin Efrog, yn mesur 50cm wrth 55cm. Does dim sicrwydd a gafodd ei fwyta i gyd ganddi.
- **Cath.** Cafwyd cadarnhad mai Flossie, cath o dde-ddwyrain Llundain yw'r gath hynaf yn y byd. Pan gafodd ei hoedran ei gadarnhau roedd yn 26 mlwydd a 330 diwrnod. Erbyn i chi ddarllen hyn bydd yn 27 oed – neu wedi ein gadael.
- **Sponsian**. Enw Ymerawdwr Rhufeinig nad oedd unrhyw hanesydd yn credu yn ei fodolaeth, ac arbenigwyr wedi gwadu hynny ers dros 300 mlynedd. Bellach, mae darn aur (y credai pawb mai ffug oedd) wedi ei ddyddio i'r drydedd ganrif, a 'Sponsian I' wedi ei gerfio arno, yn profi ei fodolaeth.
- **Te.** Newyddion da i'r rhai sy'n hoffi paned. Mae arolwg diweddar yn honni fod yfed dwy baned o de yn ddyddiol yn cadw'r cof rhag pylu wrth heneiddio. Rwan, lle wnes i gadw'r paced ...
- **Trydan.** Yn Budapest, er mwyn arbed cost trydan, mae'r coed Nadolig ar y strydoedd yn cael eu goleuo gan y cyhoedd, sy'n cael eu gwahodd i feicio yn eu hunfan ar feics sy'n cynhyrchu digon o drydan, nid yn unig i oleuo'r coed, ond hefyd i storio trydan mewn batris. Mae'r trydan o'r batris yn cael ei ddefnyddio i oleuo sgwâr canolog y ddinas dros gyfnod yr Ŵyl.
- **Mauna Loa.** Mae mynydd llosg mwyaf y byd wedi echdorri am y tro cyntaf ers 38 mlynedd, a chafodd trigolion ynys fwyaf Hawaii – tua 200,000 o bobl – eu rhybuddio y byddai posib iddynt orfod gadael yr ynys er eu diogelwch eu hunain.
- **Ystlumod.** Mae ymchwilwyr o Brifysgol Deheudir Denmarc wedi darganfod fod gan ystlumod ystod eang iawn o synnau. Mae pobl ar gyfartaledd yn gallu gwneud synnau dros raddfa o dair octaf, ac ambell un, fel Mariah Carey, hyd at bump octaf. Mae ystlumod yn creu synnau dros saith octaf.
- **Sgerbwd.** Mae esgyrn sgerbwd a ddaeth i'r amlwg yn dilyn erydu difrifol ar lwybr cyhoeddus ar arfordir Cernyw wedi ei ddyddio i'r ddeunawfed ganrif, a chredir mai corff wedi ei olchi i'r lan yn dilyn llongddrylliad yw.
- **Sychder.** Mae'n anodd credu, ond mae rhannau helaeth o Loegr yn parhau i ddioddef sychder, a gwaharddiad ar ddefnyddio pibellau dŵr i olchi ceir neu i ddyfrio gerddi yn parhau. Amcangyfrifir fod lefelau cronfeydd dŵr yn parhau'n isel – ar gyfartaledd, yn ddim ond 68% o'r hyn ddylent fod yr amser hwn o'r flwyddyn.
- **Ocsiwn.** Er na chafodd ei chynnal dros gyfnod y Clo, mae ocsiwn yn Tenbury Wells yn ôl. Fe'i cynhaliwyd yn flynyddol ers dros ganrif, ac mae'n gwerthu celyn ac uchelwydd ar gyfer y Nadolig.
- **Crefydd.** Mae canlyniadau Cyfrifiad 2021 yn dangos fod llai o bobl yn cysidro eu hunain yn Gristnogion nag erioed o'r blaen. Yn y rhan fwyaf o Gymru mae dros 44% o'r boblogaeth yn cyfrif eu hunain yn Gristnogion, ond mae'r canran yn llawer is yn ninasoedd Abertawe a Chaerdydd a hen ardaloedd diwydiannol cymoedd y de.

# DEINIOLEN

**Profedigaeth**
Dymuna Alison, Adrian, Kevin a Sharon, Ynys Iago ddiolch i bawb am y negeseuon, cardiau a galwadau ffôn a dderbyniwyd ar yr achlysur trist o golli eu brawd Mark (Ynys Iago) yn 54 oed ar 13eg Hydref. Diolch yn fawr i bawb o'r ardal.

**Cydymdeimlo**
Estynnwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar Peter Jones, neu Pani i'w ffrindiau, a fu farw yn frawychus o sydyn ac yn rhy gynnar o lawer yn ddiweddar.

**Eglwys Crist**
Bydd Gwasanaethau'r Nadolig am eleni fel a ganlyn:

Pedwerydd Sul yn yr Adfent, 18fed Rhagfyr, am 3.00pm – Naw Llith a Charol

Nos Fercher 21ain Rhagfyr am 6.00pm – Plygain a Dathliadau'r Nadolig yng nghwmni Gwilym Bowen Rhys, John Eifion a'r teulu ac eraill. Yr elw i Eisteddfod Llŷn ac Eifionydd, 2023 ac mae tocynnau am £5 i'w cael gan Lyndsey Pleming.

Noswyl Nadolig, 24ain Rhagfyr am 6.00pm – Cymun Bendigaid, Archesgob Cymru yn gweinyddu.

Bydd croeso cynnes i bawb yn y gwasanaethau hyn.

Gan ddymuno bendith y Nadolig a 2023 heddychlon i chwi.

1af Ionawr 2023, 3.00pm – Gosber

8fed Ionawr 2023, 5.00pm – Gwasanaeth y Cristingl i Ardal Bro Eryri.

**Gweithgareddau'r pentref**
Cafwyd noson hyfryd ar y 26ain o Dachwedd er mwyn rhoi goleuadau Nadolig y stryd fawr ymlaen. Mae Gŵyl Deiniolen wedi buddsoddi mewn goleuadau newydd eleni, ac mae'n dda i'w gweld ar hyd y stryd. Cafwyd adloniant gan Lleisiau Llanbabs a'r band yn ystod y noson, gyda lluniaeth i bawb a disgo i'r plant i ddilyn yn Nhŷ Elidir.

Trefnwyd *Fanzone* gan y Clwb Ieuenctid yn ystod gemau Cymru yng Nghwpan y Byd, cafwyd llawer o hwyl er gwaethaf y canlyniadau.

Mae'r clwb hefyd wedi trefnu trip bowlio 10 ar y 13eg o Ragfyr i'r aelodau, diolch i bawb am drefnu.

Mae Pwyllgor y Pentref wedi dechrau cynnal nosweithiau paned, teisen a sgwrs yn Nhŷ Elidir. Cynhaliwyd noson ar 23ain Tachwedd, a bydd mwy i ddod, felly cadwch olwg ar y gwefannau cymdeithasol am ddyddiadau pellach.

**Cystadleuaeth**
Eleni mae Gŵyl Deiniolen yn cynnal cystadleuaeth am y ffenestr tŷ orau wedi ei addurno gyda goleuadau Nadolig, gyda gwobr o hamper o nwyddau lleol i'r enillydd.

Ar yr 20fed o Ragfyr mi fydd noson sinema yn cael ei gynnal yn Nhŷ Elidir i blant ysgol Gwaun Gynfi rhwng 4.30 a 6.30pm a rhwng 7.00 a 9.00pm i blant hŷn.



**Cylch Meithrin Deiniolen**
Diolch i blant a staff y Cylch am gymryd rhan yn y diwrnod Dis-Goch ar y 16eg Tachwedd i gefnogi Cymru yng Nghwpan y Byd!

Mi gafodd pawb hwyl er na chafodd tîm Cymru lwyddiant eleni.

# Ysgol Dolbadarn





Daeth Nyrs Elin-Mai i sgwrsio efo Dosbarth Derbyn a Blwyddyn 1 am weithio yn ystod y nos, sy'n cydfynd a'n thema Nos a Dydd yn yr Hydref. Dangosodd offer meddygol iddynt a canodd 'Nos da nawr' i'r disgyblion cyn ffarwelio. Roedd pawb wedi mwynhau. Diolch Nyrs Elin-Mai



Dyma'r disgyblion Derbyn a Blwyddyn 1 yn gwylio'r gêm. C'mon Cymru/ Yma o Hyd



Dyma Disgyblion Blwyddyn 1 yn gwisgo fyny i gasglu arian ar gyfer Plant mewn Angen.

# Ysgol Penisarwaun

**Pêl-droed**
Bu'r disgyblion yn cefnogi'r tîm Pêl-droed Cenedlaethol yn ddiweddar tra roeddynt yn cystadlu yng Nghwpan y byd yn Qatar.  Da iawn a Diolch Cymru!








**Trosglwyddo i'r ysgol uwchradd**
Cafodd disgyblion blwyddyn 6 fydd yn trosglwyddo i'r Uwchradd ym Medi gyfle i ymweld â›r uwchradd am yr eilwaith yn ddiweddar. Pnawn o gemau pêl-droed trawsddalgylch oedd yr arlwy y tro hwn. Cyfle i'r disgyblion gymysgu a disgyblion blwyddyn 6 y dalgylch. Diolch i Ysgol Gwaun Gynfi am ganiatáu i blantos Penisarwaun i ymuno â hwy ar y bws ac am gael ymuno â nhw i ffurfio un tîm gan nad oedd gennym ddigon o blant i lunio ein tîm ein hunain. Cafodd bawb brynhawn difyr a hwyliog iawn. Diolch yn fawr i'r trefnwyr.

**Ymweliadau**
Bydd disgyblion yr Adran Iau yn mynd i ganolfan Lloyd George yn Llanystumdwy cyn y Nadolig i ddysgu am Nadolig Fictorianaidd. Bydd cyfle i wisgo i fyny yng ngwisg y cyfnod yn ogystal â gwneud crefftau Nadoligaidd ( lluniau i ddilyn yn y rhifyn nesa)

Bydd disgyblion y cyfnod Sylfaen yn mynd ar daith i Pontio cyn y Nadolig i weld Sioe Lliwiau. Mae pawb yn edrych ymlaen yn fawr iawn.



**Cŵn therapi**
Yn ystod y tymor hwn mae Mili a Begw, 2 gi sydd wedi eu hyfforddi fel cŵn therapi yn ymweld â'r ysgol i wrando ar rai o'r disgyblion yn darllen. Hoffwn ddiolch yn fawr i Anti Jên, eu perchennog am gytuno i ddod mewn i'r ysgol yn wythnosol. Mae'r plant wrth eu boddau yn darllen yn uchel i'r cŵn a'r ddwy Mili a Begw ar eu hymddygiad gorau bob amser.

**Cyngerdd Nadolig**
Mae pawb yn yr ysgol yn brysur ar hyn o bryd yn paratoi at gyngerdd Nadolig yr ysgol sydd i'w gynnal ar 19eg o Ragfyr yn y Neuadd Gymuned. (Lluniau yn y rhifyn nesaf)

Dymuna bawb yn ysgol Penisarwaun ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr yr Eco.






**Gweithdy Gwyddoniaeth a Thechnoleg**
Dyma ddisgyblion Ysgol Penisarwaun yn mwynhau gweithdy Gwyddoniaeth a Thechnoleg ym Mrynrefail.

# PENISARWAUN

**Pwyllgor Neuadd Gymuned**
Cynhaliwyd pnawn i ddathlu'r Nadolig ar 15fed Rhagfyr am 2.00pm, gydag eitemau gan blant yr ysgol ac aelodau o'r Pwyllgor.  Braf oedd cael cyfarfod â'n gilydd wedi'r Cyfnod Clo a chael mwynhau'r cyfle am sgwrs efo paned a mins pei ar y diwedd.  Tynnwyd Clwb Cant Rhagfyr, gyda diolch i bawb sydd wedi ymuno.  Cofiwch fod croeso i aelodau newydd am £12 y flwyddyn er budd y gost o dalu treth i'r Cyngor am lanhau a gwresogi'r Neuadd Gymuned. Bydd manylion pellach am y dathlu yn y rhifyn nesaf.

Ein cofion anwylaf at bawb sy'n sâl yn y pentref, gyda dymuniadau gorau am adferiad iechyd.

Mae'n dda deall fod Liz, sy'n aelod gweithgar o'r Pwyllgor wedi cael triniaeth i'w phen-glin ac yn gwella'n dda gydag ymarferion cyson.

Anfonir ein cydymdeimlad llwyraf i deulu'r diweddar Hughie Richard Jones, Heather Bank a fu farw'n annisgwyl yn 56 mlwydd oed.  Mab annwyl y diweddar Richard ac Eleanor a nai a chefnder hoff.

Dymunir diolch i Carol Adlam am gasglu'r Eco yn fisol a'u rhannu i'r dosbarthwyr drwy 2022.

Nadolig Llawen i bawb a Blwyddyn Newydd lewyrchus i bawb yn 2023.

**Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd**
Gosodwyd nod o £7,500 ar gyfer Plwyf Llanddeiniolen.  Pan oedd yr Eisteddfod yn y Faenol yn 2005, cafwyd cefnogaeth ariannol dda iawn gan ardal Pwllheli a'r pentrefi o gwmpas ac yn awr maent yn gofyn yn daer am ein cefnogaeth ni.  Ar ôl y Nadolig dosberthir amlenni o gwmpas Penisarwaun yn gofyn yn garedig i chi, yn ôl eich modd i amgáu unrhyw swm o arian yn yr amlen a'i rhoi i'r casglwr. Nod y pentref yw £2,000.  Bydd pob cyfraniad, bach neu fawr yn cael ei werthfawrogi.  Rydym yn hyderus y bydd yr ymateb i'r apêl hon yn anrhydeddus.

Trefnir noson o 'Plygain a Dathliad y Nadolig' ar 21ain Rhagfyr am 6.00pm yn Eglwys Crist, Llandinorwig gan aelodau Pwyllgor Plwyf Llanddeiniolen. Pris mynediad yw £5, gyda'r elw yn mynd at apêl yr Eisteddfod Genedlaethol.

**Diolch**
Dymuna Ann Ellis-Williams ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a chefnogaeth ar ôl ei llawdriniaeth ddiweddar yn yr ysbyty yn Lerpwl.



**Gwefr**
Bu'n ddiwrnod i'w gofio i dri o'r ardal - yn gerddorol beth bynnag – ar achlysur y gêm rygbi rhwng Cymru ac Awstralia yng Nghaerdydd. Roedd Dafydd Emrys, Marged Rhys a Geraint Edwards yn aelodau o Gôr Dre oedd gyda thri chôr arall yn diddori'r dorf, ac wrth gwrs ledio'r Anthem. Eiliad i'w thrysori. Nid felly'r canlyniad wrth gwrs, ond rwy'n siŵr erys y profiad yn hir i'r tri ohonynt.

**Capel y Cysegr**
Braf cyhoeddi fod yr hen draddodiad o Gymun Bore Nadolig am 10:00AM yn dychwelyd i'r Cysegr eleni. Bu hon yn oedfa arbennig ers sawl blwyddyn. Dyma oedfa sy'n uno'r pentref, a braf croesawu rhai sydd wedi teithio adref ar yr Ŵyl. Diolchwn o flaen llaw i'n cyn-weinidog Marcus Robinson am gytuno i arwain yr Oedfa eleni, fel bod y traddodiad yn parhau. Wedi'r Ŵyl, edrychwn ymlaen at groesawu ein Gweinidog newydd y Parch Nerys Griffiths i gymryd yr awenau ar ddechrau'r flwyddyn.

**Oedfaon Ionawr 2023**
Os na fydd dyddiad yn ymddangos ni fydd oedfa, ond bydd croeso i unrhyw un ymuno mewn oedfa a gynhelir.
**Bethel** : Ionawr 8fed - Dafydd Iwan, Ionawr 15fed - Dr Huw Tegid Roberts, Ionawr 22ain - Parch. R.E.Hughes
**Cysegr** : Ionawr 8fed - Cyfarfod Gweddi, Ionawr 8fed - Gweinidog, Ionawr 15fed - Parch. O.G. Williams, Ionawr 22ain - Dafydd C. Williams, Ionawr 29ain - Gweinidog
**Saron**: Ionawr 22ain - Dr. Ian Morris (Gweinidog). Ionawr 1af, 8fed, 15fed a 29ain i'w trefnu.

**Pentref Positif**
Bydd yr hen gwestiwn yn cael ei ofyn yn aml, "Sut Ddolig fydd hi?" a bydd llawer yn ateb "Distaw." 'Dolig ôl-Cofid, 'Dolig cyfrif ceiniogau. Ie, am sawl rheswm bydd yn ŵyl wahanol eleni, eto yn y mêr fe ddaw'r teimlad cynnes yna o ddathlu, o gofio a gofyn. Y mae i'r ŵyl ei chynhesrwydd o hyd.

Yma ym Methel bu sawl cwmwl ar wahân i'r aflwydd yn hofran. O fewn dim gwelwyd colli siop/post, tafarn, caffi, ac un o'n capeli hanesyddol yn cau drws, ond diolch fyth yn darganfod llety arall. Yr hyn oedd yn creu diflastod oedd mai dyma leoliadau naturiol i gymdeithasu, rhannu straeon, tynnu coes, myfyrio…

Profiad oedd galw'n Post, nid ond yfed yn y Bedol, mwy na choffi yn y caffi, a chynnal traddodiad sy'n prysur newid. Y Cynllun Datblygu yn diffinio pentref Bethel fel lle deniadol ar gyfer 'teithio i'r gwaith'. O fan cyrraedd cyfleus i Gaernarfon, Bangor, Port ( wedi'r datblygiadau ) a chyswllt lawr lôn bellach i'r A55.

Rhyw *scenario* felly o gysgu, mynd i weithio, yn ôl i'r tŷ yn nos. Mae'r cynnydd sylweddol mewn adeiladu neu ddatblygu adeiladau presennol yn arwydd fod Bethel yn bentref deniadol i symud yno neu aros ynddo.

Darlun du, ond NA! Dyma bentref yn mynnu taro'n ôl yn erbyn y ffactorau. Y mae arweinwyr, noddwyr, anogwyr newydd yn codi, a nifer ohonynt yn rhieni ifanc. O'r diwedd diflannu mae'r hen ddelwedd Gymreig o ddiffinio rhai fel 'pobol ddŵad'. Rhieni a phlant Bethel ydym bellach. Y mae sawl egin yn torri trwy'r pridd ac yn mynnu cyfoethogi ein hardal. Hefyd, mae gweithgareddau wedi ac yn cael eu trefnu ar gyfer pob oedran. Cynyddu mewn nifer mae aelodaeth yr Urdd, a Chlwb Ieuenctid. Mae'r clwb Ffermwyr Ifanc yn chwifio'r faner yn uchel yn rhanbarth Eryri. Y mae'r Ysgol Sul yn aros i dderbyn ac ymestyn profiad. Mae'r Clwb Pêl-droed Ieuenctid yn llwyddiant oherwydd ymroddiad rhieni cefnogol a pharodrwydd rhai i roi o'u hamser yn trefnu a hyfforddi. Mae'r Eisteddfod yn dal i roddi llwyfan profiad.

Y mae'r Neuadd Goffa bellach yn fwrlwm o weithgaredd, gydag arlwy sy'n apelio. Diolchwn i'r pwyllgor gweithgar am eu hymroddiad - ac wrth gwrs criw Mishmash!



**Clwb Cerdded Bethel**
Er y smyclaw, mentrodd 14 glew ar y daith ddiweddaraf i ardal Beddgelert/Nantmor. Is-deitl y cerddediad oedd Taith Ardal y 3 bardd. Y tri oedd Wil Oerddwr, sef brawd T.H. Parry-Williams, a'r beirdd gwlad Glaslyn a Charneddog. Er gwaetha'r tywydd anfanteisiol roedd lliwiau arbennig yr hydref yn mynnu gosod cynfas gefn i'r cerddwyr. Mae sawl un wedi cyfeirio at liwiau lliwgar natur yr hydref hwn.

Dechreuodd rhai eu taith ym Meddgelert a dilyn y llwybr cyfochrog ag Afon Glaslyn, gan gyfarfod y gweddill ger Pont Aberglaslyn. Ymlaen wedyn drwy bentref Nantmor am Blaen Nantmor cyn troi at hen ffermdy anghysbell y Carneddi, a rhyfeddu ar yr olygfa oddi yno, anfarwolwyd yn llun rhyfeddol Geoff Charles o Garneddog a'i wraig, ar eu diwrnod olaf yn y Carneddi cyn y mudo. "Edrychaf dros y bryniau draw." Cafwyd egwyl ger y Carneddi i gofnodi ychydig o hanes Carneddog. Cyfeiriwyd hefyd at fam y perchennog presennol, sef Ruth Ruck, oedd wedi ei symbylu i gyhoeddi llyfrau am y fferm a'r profiadau a brofodd yno ymysg golygfeydd ysbrydoledig. Troi o'r Carneddi i gyfeiriad Tŷ Mawr, addoldy hanesyddol. Manteisiwyd ar lecyn sych a chlyd am ymborth a chyd drafod taith, oedd yn sicr wedi plesio.

Dychwelyd wedyn at Bont Aberglaslyn. Cafwyd hanes hen bentref Aberglaslyn a'r hen ddyddiau pan hwyliau llongau oddi yno gyda'u nwyddau i bellafoedd byd. Ar y daith yn ôl i Feddgelert cafwyd hanes creu'r Gymwynas, sef yr enw ar y lôn o Aberglaslyn i Feddgelert. Ar y ffordd ymwelwyd hefyd â hen gartref y bardd Glaslyn. Taith i'w chofio yn sicr, a diolch i Morfudd am yr adroddiad. Mae'n siŵr bod llawer ohonoch yn cael blas ar y gymysgfa yma o ffitrwydd, cymdeithasu ac olrhain hen hanes. Os oes awch arnoch i ymuno yn y teithiau sydd wedi eu cyn-baratoi mor drylwyr, yna cysylltwch â Morfudd/ Hefin.

Yn y llun uchod gwelir y criw o flaen Hen Gapel Nantmor, a'r ail lun o flaen cartref y bardd Glaslyn.



I'r oedolion, cynnydd hefyd yn aelodaeth Merched y Wawr a'r Clwb Bro. Eto amrywiaeth, eto cymdeithasu. Mae'r Clwb Cerdded, dan arweiniad Morfudd a Hefin, yn cynnig yr awyr iach yn gymysg â diwylliant. Yn y rhifyn hwn cawn gyfeirio at lwyddiannau'r Clwb Bowlio. Eto drws agored i aelodau ymaelodi – 'Dewch hen ac ifanc dewch'. Drws nesaf rydym yn dal i ddisgwyl am y 147 cyntaf ym Methel.

Ydan ni'n dal i gywilyddio pan welwn y criw bibs melyn allan bob dydd Mercher, beth bynnag bo'r tywydd, yn casglu'r sbwriel a deflir yn ddifeddwl. Neu'r ffyrdd a drown yn doiledau cŵn. Ein pentref NI sydd yn dioddef.

I erthygl a ddechreuodd dan gwmwl, gorffennwn gyda heulwen yr hyn a gynigir i ni dros yr Ŵyl. Yn eu tro daeth y Neuadd yn fwrlwm 'Cefnogi Cymru' dros gyfnod Cwpan y Byd. Roedd y dagrau yn siarad cyfrolau. Yn eu tro daeth y Bore Coffi pentrefol, Ras y Nadolig (17/12), cyngerdd Bwncath (1/12) a Gwasanaeth y Plygain. Am y tro cyntaf bu teuluoedd yn cyfrannu i ymgyrch Ffenestri Adfent Bethel ( 1/12 - 24/12). Gwefr oedd mynd heibio ambell dŷ a lliwiau'r Adfent yn codi ysbryd. Te Nadoligaidd (diolch i ymdrech aelodau) a Gwasanaeth Nadoligaidd (diolch i Rita am drefnu) yn y Clwb Bro (6/12), Gwasanaethau Nadolig yng Nghapel Saron (11/12) a'r Cysegr (18/12). Ar y 15fed o Ragfyr daeth Siôn Corn ar ei ymweliad â'r pentref. Rwy'n siŵr fod ein plant arbennig yn haeddu rhywbeth i'w drysori yn y sach wedi eu haml gyfraniadau i'r gymdeithas leol eleni. Bu sawl gweithgaredd yn yr Ysgol, gan gynnwys y Noson Bingo a'r Disco Nadolig bywiog.

Yna yn y flwyddyn newydd byddwn yn croesawu'r Parch. Nerys Griffith fel Gweinidog. Eisoes mae hi wedi cynnal oedfaon ym mhulpudau'r pentref. Rwy'n sicr nad gweinidog 'pedwar wal fore Sul' fydd hi, a bydd sawl aelwyd yn y pentref yn elwa o'i chwmnïaeth. Rhown iddi ein cefnogaeth.

Ie, pentref positif yw Bethel. Y mae gwahoddiad i bob un ohonom ymuno yn y criw, a chadw llong llwyddiant yn sefydlog er lles y gymuned arbennig hon. Ymlaen â'r egino.

**Ein Hanrheg Nadolig Cynnar**

Rwy'n siŵr bydd llawer yn cytuno â'r gosodiad uchod. Cyfeiriad sydd yma i gyfraniad ein Cyng. Sirol Sasha Williams. Mae'n aelod egnïol, gweithgar â gweledigaeth bositif dros ei hardal. Mae'n rhyfeddol sawl gwaith dros y flwyddyn bu cymdeithasau, clybiau neu unigolion yn cydnabod ei chyfraniad diflino. Diolch i ti Sasha ar ran llawer nid yn unig am dy barodrwydd i sefyll, ond i danio bywyd a her i ni fel pentrefwyr. Diolch arbennig i ti am dy barodrwydd i rannu gwybodaeth a dy etholwyr. Mwynha Nadolig teuluol a thanio'r batris am flwyddyn arall o gynrychioli.

**Ail-gydio yn y ciw draw yng Nghlwb Snwcer Llanrug**

Mae Clwb Snwcer Llanrug wedi gweld hen wynebau a rhai newydd yn ymweld â'r Clwb ers iddo ddechrau ailagor yn rheolaidd bob nos Fawrth a nos Iau (6:30PM) yn wythnosol.

Gyda diolch i Glwb Ieuenctid Llanrug, mae nifer o bobl ifanc 11-14 oed wedi datblygu diddordeb go dda yn y gêm. Hynny tra bod criw o rhai mymryn yn hŷn i weld yn hoff iawn o'r gêm ac yn ddefnyddwyr rheolaidd o'r Clwb yn ddiweddar. Hefyd mae ambell chwaraewr, a oedd unwaith yn cael eu hadnabod fel rhai 'ifanc' y Clwb, wedi ail-gydio yn y ciw yn ôl ac wedi dychwelyd i'r bwrdd gwyrdd.

Er na chaeodd Clwb Snwcer Llanrug y drysau yn swyddogol, nid oes tîm o'r Clwb wedi bod yn y Gynghrair Bangor a'r Cylch dros y ddau dymor diwethaf - hyn er i Glwb Llanrug ennill y Gynghrair nôl yn 2020, gyda dau (weithiau tri!) dîm o'r Clwb yn rhan o'r gynghrair dros y blynyddoedd.

Fodd bynnag, mae gobaith bellach wedi dychwelyd gydag ysfa newydd yn gwthio'r Clwb yn ei flaen.

Er mwyn helpu i gynnal y Clwb a'r byrddau yn y dyfodol, bydd Clwb Snwcer Llanrug yn ailgyflwyno system aelodaeth o Ionawr 2023 ymlaen.

- £10 i oedolion
- £6 i oedrannau 14-17
- £4 os ydych dan 14 (cofiwch fod angen cwmpeini rhiant neu oedolyn gyda chi os ydych yn y grŵp yma).

Ac fel rhan o'ch tâl aelodaeth, bydd tair Cystadleuaeth Clwb yn cael eu cynnal o Chwefror 2023 ymlaen, sef:

Cystadleuaeth Sgôr Handicap (0 i +40 o bwyntiau ar gychwyn bob ffrâm, yn ddibynnol ar brofiad), Cystadleuaeth Oedolion a Chystadleuaeth dan 17.

Bydd bob un sydd yn aelod erbyn Ionawr 31ain yn cael eu cofrestru yn awtomatig. Bydd enwau'n cael eu tynnu allan o het ar gyfer pob rownd a bydd bob rownd yn gorau o dair ffrâm (felly cyntaf i ddau).

Bydd y Cystadlaethau Clwb yn cael eu rhedeg dros gyfnod o ryw ddeufis - holl ddibynnol ar y niferoedd - efo'r gobaith mai dyma fydd y drefn flynyddol ar gyfer y Clwb o hyn allan.

Hefyd y nod yw bydd y Cystadlaethau Clwb yn helpu i ddenu rhai o'r chwaraewyr sydd wedi cynrychioli Clwb Snwcer Llanrug dros y blynyddoedd, yn ogystal â rhai newydd drwy'r drysau.

Hyn oll wrth ail-greu'r awch cystadleuol iach mae Clwb Snwcer Llanrug wedi bod yn adnabyddus amdano dros y blynyddoedd.

Byddwn yn cynnig diweddariadau ar y cystadlaethau hyn yn rhifynnau'r dyfodol o'r Eco.

Am ragor o wybodaeth am Glwb Snwcer Llanrug, ewch i dudalen Facebook Clwb Snwcer Llanrug neu cysylltwch â Goronwy Hughes neu Danny Griffith (07525717344) os gwelwch yn dda.

**Gobaith**

A'r Eco yn mynd i'w wely daeth newyddion calonogol. Mae'n ymddangos fod criw o drigolion y pentref wedi ymuno i greu Menter Gymunedol. Eu bwriad yw ail agor Perthyn, a gobeithio yn hwyrach ymlaen agor siop. I helpu'r achos gobeithir byddent mewn sefyllfa i ddenu grantiau cymorth yn y flwyddyn newydd. Gobeithio byddent yn llwyddiannus a cheir cefnogaeth dda iddynt gan gwsmeriaid lleol.

**Hwyl Fawr?**

Rwyf yn sefyll lawr fel Golygydd Chwaraeon wedi 37 o flynyddoedd. Os eich dymuniad fel darllenwyr/ pentrefwyr yw i mi gario ymlaen fel Gohebydd Newyddion Pentref yna rwyf yn fodlon gwneud hynny. Nadolig Llawen i chwi gyd.

## CAEATHRO

**Capel**

Ar yr 8fed o Ionawr bydd Gwasanaeth cyntaf y flwyddyn newydd yn cael ei gynnal am 2.00pm. Bydd y Gwasanaeth nesaf yn cymryd lle ar yr 22ain o Ionawr, hefyd i gychwyn am 2.00pm.

**Cymdeithas Cae Chwarae**

Diolch yn fawr i griw y Gymdeithas am osod y goeden Nadolig hyfryd yng nghanol y pentref eto eleni – mae'n werth ei gweld – cadwch lygad pan yn y pentref!

**Pen-blwydd arbennig**

Dymuniadau gorau i Joe Roberts (5 Erw Wen) ar ddathlu pen-blwydd arbennig yn ddiweddar – gobeithio i chi fwynhau'r dathlu.

**Gwellhad buan**

Gwellhad buan i Alwyn Jones (Y Dderwen, Rhos Bach) yn dilyn llawdriniaeth ar ei ben-glin yn ddiweddar – edrychwn ymlaen i'ch gweld o gwmpas y pentref eto'n fuan.

**Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023**

Braf yw cael edrych ymlaen am yr Haf ac am yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, ond mae gwaith cwblhau casglu arian i'n cronfa leol ni cyn hynny! Targed Waunfawr a Chaeathro ar y cyd ydi £2,000 ac mae hanner yr arian wedi ei gasglu yn barod.

Does dim dwywaith bod y pandemig wedi amharu ar unrhyw weithgareddau fyddai fel arfer wedi eu cynnal i gasglu arian. Gofynnir felly am roddion yn uniongyrchol i'n cronfa er mwyn cyrraedd y nod.

Gallwch gyfrannu drwy arian parod neu siec (taladwy i Eisteddfod Genedlaethol Cymru) a'i roi i'r Trysorydd, Sali Burns, Tŷ Capel, Waunfawr neu unrhyw un o'r swyddogion eraill - Iola Gruffydd, Tegannedd; Hawys Tuff, Llys y Waun; Cyng Edgar Owen, Waunfawr neu'r Cyng. Menna Jones, Caeathro. **Neu** mae modd i chi dalu yn uniongyrchol drwy gyfrif banc ar lein / ffôn – mae'r manylion ar wefan yr Eisteddfod Genedlaethol neu ar gael gan Sali neu Iola. Os yn cyfrannu yn y modd yma mae'n hynod o bwysig eich bod yn gadael i Sali Burns wybod er mwyn iddi hysbysu swyddfa'r Eisteddfod i roi eich cyfraniad yn erbyn ein targed pentref.

Diolch ymlaen llaw am bob cyfraniad bach neu fawr!

| | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| A | B | O | E | Ll | C | Y | Ll | A | M | S | U |
| F | W | Ng | G | E | F | U | Y | C | E | I | Ll |
| O | H | Th | E | D | W | Y | F | O | R | E | Y |
| N | Y | L | Ch | R | A | M | N | N | Ch | Ph | T |
| G | I | N | M | I | T | B | I | W | P | N | S |
| O | S | Ll | E | C | N | L | O | Y | G | M | Ff |
| Ch | A | Dd | W | A | M | B | N | S | W | A | E |
| A | N | R | U | N | Y | R | E | W | Y | R | T |
| F | Ch | O | Dd | W | S | I | C | I | R | T | E |
| Y | B | D | I | D | O | F | C | E | F | N | I |
| W | Rh | R | A | N | Y | R | S | T | A | H | N |
| D | E | F | T | C | W | Y | W | G | I | Ll | A |

# CHWILAIR MIS IONAWR – AFONYDD

AFON GOCH
CEFNI
CONWY
DWYFACH
DWYFOR
ERCH
GWYRFAI
LLEDR
LLIGWY
LLYFNI
MARCHLYN
MAWDDACH
SEIONT
TRYWERYN
WNION

Cofiwch bod rhai llythrennau dwbl yn Gymraeg, sydd yn llenwi un sgwâr yn y chwilair.

**Cwestiwn?**
Sawl afon yn y chwilair sy'n rhedeg drwy fro'r Eco?
Beth yw eu henwau?
Cewch yr atebion yn rhifyn nesa'r Eco. Pob lwc wrth ddyfalu.




**BYSUS RHIWLAS**
**BYSUS BACH A MAWR**
ar gael ar gyfer pob math o LOGI PREIFAT
Nosweithiau allan, Partion, Tripiau ac ati.
Am wasanaeth personol a thelerau rhesymol - Ffoniwch **(01248) 361044**
**D. P. OWENS** RHIWLAS


**FFRAMIA**
Parc Padarn Llanberis
(01286) 870922
Gwasanaeth
**FFRAMIO LLUNIAU**
*www.fframia.com*

SAMARIAID
Gogledd Orllewin Cymru
Beth bynnag rydych chi'n ei wynebu
Rydyn ni yma i wrando
Llinell Gymraeg ddi-dâl
7-11pm bob nos
**0808 164 0123**
Gwefan: www.samariaidbangor.cymru


## ATEBION I CHWILAIR CYFARCHION NADOLIG AR DRAWS Y BYD

| | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| B | J | F | W | N | A | D | O | L | I | G | Ll | A | W | E | N |
| A | O | E | B | F | L | C | H | E | R | W | Q | E | K | L | T |
| R | Y | L | C | Ll | H | J | N | S | A | Y | U | G | N | A | A |
| E | E | I | D | A | B | U | F | A | G | R | I | W | E | T | I |
| L | U | Z | E | O | D | E | T | M | N | E | M | L | Dd | A | W |
| L | X | N | T | F | G | O | Ff | T | W | I | T | A | S | N | S |
| E | N | A | C | Y | H | K | R | S | H | D | E | D | N | N | H |
| O | O | V | A | Z | T | Ll | A | I | N | A | S | P | E | O | C |
| N | E | I | M | E | W | G | I | R | B | L | W | W | R | U | Y |
| U | L | D | H | P | R | E | N | H | A | D | E | Y | M | B | L |
| L | Q | A | L | X | C | H | C | C | N | C | E | L | F | N | O |
| T | X | B | U | Ng | I | U | F | Y | O | U | S | E | I | Z | S |
| U | C | N | J | M | Y | R | W | R | R | A | I | O | T | R | E |
| M | V | I | D | E | S | M | P | R | W | G | U | L | N | S | W |
| J | N | T | O | U | R | Y | U | E | Y | S | T | H | K | Y | B |
| Ll | O | E | G | R | A | C | A | M | E | R | I | C | A | E | T |

| **CYFARCHIAD** | **GWLAD** |
|---|---|
| BOLDOG KARACSONYT | HWNGARI |
| BUON NATALE | YR EIDAL |
| NADOLIG LLAWEN | CYMRU |
| FELIZ NAVIDAD | SBAEN |
| MUTLU NOELLER | TWRCI |
| GOD JUL | NORWY |
| JOYEUX NOEL | FFRAINC |
| MERRY CHRISTMAS | LLOEGR AC AMERICA |
| WESOLYCH SWIAT | GWLAD PWYL |

Wnaethoch chi ddod o hyd i'r cyfarchion ar draws y byd ynghyd a'r gwledydd sy'n eu defnyddio?

**ATEB I'R SIALENS** - **Sbaen** oedd y wlad **nad oedd** wedi ei chynnwys yn y chwilair?

## LLANBERIS

**Cais am Newyddion**
Os oes unrhyw unigolyn neu gymdeithas yn dymuno cyflwyno eitem o newyddion, llun neu erthygl i'r Eco, gallwch wneud hynny drwy gysylltu â mi drwy ffôn/ ebos neu alwad personol, gyda'r cyfeiriadau sydd o dan Newyddion Llanberis ar dudalen 2 yr Eco. Diolch yn fawr.

**Cyfarchion**
Oherwydd nam llygaid ac anhwylder arall ni fydd Dilys Mai Roberts, Yr Haciau, Penisarwaun yn anfon cardiau Nadolig eleni. Mae'n dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb sydd yn ei hadnabod. Hefyd mae'n diolch o galon am gefnogaeth a dymuniadau da a gafodd ar hyd y flwyddyn.

**Capel Coch**
Cynhelir Gwasanaeth Nadolig yn yr Oedfa Deulu am 10.00 o'r gloch ddydd Sul, 18fed Rhagfyr. Fore Nadolig, dydd Sul, 25ain Rhagfyr bydd Oedfa yn y Capel am 10.00 o'r gloch.

Rhannwyd Calendrau Adfent Cristnogol i blant yr Ysgol Sul ar gyfer dechrau mis Rhagfyr. Prynwyd hwy gydag arian a dderbyniodd yr Ysgol Sul er cof am Shaun Foulkes, Dôl Elidir, a fu farw ym mis Chwefror eleni ac a fu'n gymaint rhan o Nadolig Ysgol Sul Capel Coch am flynyddoedd. Bydd y Calendrau Adfent gobeithio nid yn unig yn atgoffa'r plant o stori Geni'r Iesu ond yn atgoffa'u teuluoedd hefyd o gyfraniad a gwasanaeth Shaun i ni. Gwerthfawrogwn y rhodd yn fawr iawn.

**Keith Roberts (Guto)**
Dymuna Roy, Sheila a'r teulu oll, ddiolch yn ddiffuant am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth o golli brawd annwyl iawn. Diolch i'r Parchedig John Pritchard am wasanaethu ac i Roberts & Owen Penygroes am eu trefniadau trylwyr a theimladwy. Diolch am y rhoddion a dderbyniwyd er côf am Keith tuag at Marie Curie.



Yr organyddion prysur, Gareth, Olwen, Annette a Bethan

**Marathon *Caneuon Ffydd***
Cynhaliwyd 'Marathon *Caneuon Ffydd*' yn Capel Coch ddydd Gwener, 2il Rhagfyr er budd Apêl Hadau Gobaith a drefnir eleni gan Eglwys Bresbyteraidd Cymru i gefnogi gwaith Cymorth Cristnogol. O 10.00 o'r gloch y bore hyd 6.45 yr hwyr bu Gareth Jones, Bethan Holding, Olwen Hughes ac Annette Bryn Parri yn chwarae ar yr organ bob tôn yn y gyfrol *Caneuon Ffydd:* cryn gamp o gofio bod yna 704 o donau!

Diolch yn fawr iawn i'r pedwar am eu hymdrech. Diolch hefyd i bawb a fu'n helpu yn ystod y dydd i weini paned a chacen i'r bobl a alwodd heibio i wrando ac i gefnogi ac i gyfrannu arian. Diolch wrth gwrs am bob cyfraniad a gafwyd at yr Apêl. Roedd yn braf cael croesawu atom yn ystod y prynhawn Llinos Roberts o Swyddfa Cymorth Cristnogol yn y Gogledd a Cheryl Williams ar ran Apêl Hadau Gobaith. Diolch iddynt am eu cefnogaeth i'r dydd. Nid yw'n rhy hwyr i gefnogi'r ymdrech ac os oes unrhyw un yn dymuno gwneud hynny gellir anfon cyfraniadau at Weinidog Capel Coch neu Gareth Jones neu Colin Jones, y Trysorydd.

**Eglwys Sant Padarn**
Mae arddangosfa o waith Isaac Hughes, ffotograffydd cynnar Llanberis a oedd yn tynnu portreadau o bentrefwyr a chwarelwyr y cyfnod, i'w weld yn yr Eglwys rhwng 10:30 a 2:00 o'r gloch o ddydd Llun i ddydd Gwener.

**Gweithgareddau'r Nadolig**
**Dydd Sadwrn 17eg Rhagfyr** bydd gorymdaith ar droed yn cychwyn o'r Heights am 2 o'r gloch i Stabl Dolbadarn lle bydd drama'r Geni a chanu carolau. Bydd paned a mins pei i ddilyn yn yr eglwys. Gwahoddir y plant i wisgo mewn dillad cymeriadau'r Geni.

Cynhelir Gwyl Coed Nadolig yn yr eglwys o'r **12fed tan 23ain o Ragfyr**. Bydd coeden arbennig yno i unrhyw un sydd eisiau gosod addurn er cof.

**Dydd Sul 18fed Rhagfyr** am 1 o'r gloch cynhelir cyngerdd blynyddol Seindorf Arian Deiniolen a Chor Dyffryn Peris. **NODER** mae amser cyngerdd Seindorf Arian Deiniolen wedi newid o 2 o'r gloch y pnawn i 1 o'r gloch y pnawn. '**Sylwer yr amser newydd**.

**25ain Rhagfyr,** Dydd Nadolig, 10 o'r gloch - Cymun Bendigaid

**1af Ionawr**, 11 o'r gloch - Boreol Weddi

**Enillwyr Clwb Cant**
Mis Medi - 1) Myra Moorse 2) Suzanne Fisher 3) Brenda Griffith

Mis Hydref - 1) Claire Stanton-Morris 2) Owain Rees Jones 3) Freda Jones

**Eglwys Sant Peris**
**17eg Rhagfyr** am 5:30 yr hwyr ceir perfformiad o, 'A Christmas Carol'

**24ain Rhagfyr,** Noswyl Nadolig, 11:30 yr hwyr - Cymun Bendigaid







# Dyddiadur y gath ddŵad/ Bobliadur - Rhan 10





Dyma hanes gath fawr goch, a ddaeth, ychydig dros flwyddyn yn ôl, i fyw ar lethrau Eryri. Doedd o ddim wedi dewis dod yno i fyw ond, doedd ei fywyd hyd hynny, ddim wir wedi bod yn beth fyddai unrhyw gath gall wedi ei ddewis.

Oeddech chi'n gwybod y gall cath tŷ redeg ar gyflymder o tua 30mya dros bellteroedd byrion? Felly yn ôl y ffaith yma gallai cath redeg yn gyflymach na'r rhedwr Usain Bolt mewn ras 200 medr! Dwi'm yn siŵr os ydy hynny'n wir am Bob cofiwch, efallai na fyddai ei bwysau o 6kg yn caniatáu sbrintio ymhellach na lled yr ardd …

Dyma Bob felly yn parhau efo'i stori ar ôl mwynhau agor ei anrhegion dros gyfnod y Nadolig.

"Heddiw mae hi'n brysur yma, maen nhw wedi symud y bwrdd i ochr yr ystafell ac mae'r ddeu-droed fach wrthi'n brysur yn y gegin ac yn gosod pethau ar hyd wyneb y bwrdd. Mae'r cadeiriau hefyd wedi eu gosod o gwmpas ochrau'r ystafell, er mae ambell un yn dal wrth ymyl y bwrdd. Mae'r un mawr wedi bod yn brysur efo'r peth swnllyd sugno llwch eto ac yn gosod gwydrau allan yn y gegin gefn. Dwi'n amau'n gryf felly bod rhywbeth ar bawen. Ddaeth yna neb yma ddoe, ond mae gen i deimlad bydd deu-droediaid diarth yn landio yma heddiw. Ond does dim allai wneud am y peth, felly dwi'n cadw fy nerth, rhag ofn fyddai ei angen o, trwy gael napan bach ar y soffa, fel nad ydw i dan draed. …

Roeddwn i'n iawn! Agorodd y drws ffrynt ac mi landiodd dau ddeu-droed diarth. Maen nhw wedi bod yma o'r blaen, ond dwi'n synhwyro nad ydy'r un lleiaf ohonynt yn ryw hoff iawn ohonai, rwbath i neud efo ci mawr coch! Dydw i heb weld hwnnw eto, a dydy ddim yn edrach fatha'i fod o efo nhw heddiw, diolch byth. Cyn pen dim mae'r drws ffrynt yn agor eto ac mae yna un hen, sy'n trio bod yn ffrindia efo fi ac un tal yn landio. Mae'r un hen yn rhoi ei llaw i mi a dwi'n gadael iddi roi ychydig o fwythau i mi, rhag codi twrw de. Mae hi wedyn yn ddigon digywilydd i eistedd wrth fy ochr i, er mae hi reit gynnes chwarae teg iddi, dim ond iddi beidio bod yn rhy hy. Pan yw'r drws yn agor eto, mae yna ddeu-droediaid eraill yn dod i mewn. Y tro yma mae yna rai bach efo nhw. Oooo diar - rŵan mi ydw i'n nerfus, mae fy nghynffon i'n dechrau siglo oherwydd doedd profiadau gefais i yn fy mywyd blaenorol efo deu-droediaid bach ddim yn rhai da!

Beth ddylwn i 'neud? Rhedeg i ffwrdd neu guddio? Chwarae teg dydy'r rhai bach ddim wedi dod rhy agos, hyd yma. Ond petha felna ydyn nhw de, yn glên efo'r deu-droediaid mawr o gwmpas ond wedyn yn tynnu eich ffwr, yn eich codi a'ch dal chi ben i waered a'ch gollwng yn annisgwyl ar lawr caled! Mae gan gathod y ddawn o lanio ar eu pedair pawen ond mae 'na bendraw i bob dim! Wedyn pan ddach chi'n dial am gael eich cam-drin a'u cripio nhw maen nhw'n gweiddi a sgrechian a chi sy'n cael y bai, neu felly oedd hi erstalwm. Fyddwn i'n cael fy nhaflu allan gwaeth bynnag sut dywydd oedd hi ac yn cael fy nhrin reit arw yn y broses, wedyn doedden nhw ddim yn fy ngadael i nôl i mewn i'r tŷ ac roeddwn i'n gorfod ffeindio fy swper fy hun ym miniau sbwriel y cymdogion.

Dwi'n penderfynu cuddio, un o fy hoff lefydd yw ar un o'r cadeiriau sydd wrth y bwrdd, efo'r lliain yn disgyn dros yr ochr does neb yn fy ngweld i, dwi allan o ddrafftiau oer sy'n dod o dan y drws, ond yn well byth dwi'n gallu gweld a chlywed beth sy'n digwydd. Os eith hi i'r pen mi a'i du ôl i'r soffa neu gwna'i fentro i fyny'r grisiau ac i un o'r llofftydd. Ddaw'r deu-droediaid bach ddim i fyny i fanno. Ddoi 'nôl at y tan pan fydd y dieithriaid wedi mynd a'r tŷ wedi tawelu.

Haleliwia cathod bob lliwiau! O'r diwedd mae pawb wedi mynd… Dwi'n meddwl… Mae'r lle ma'n dawal, dim ond sŵn fy neu-droediaid i'n cerdded o gwmpas yn clencian y llestri a siarad efo'i gilydd. Wnes i fynd i'w llofft nhw yn y diwedd, pan symudodd rhywun fy nghadair ddiogel. Fanno maen nhw'n diflannu pan maen nhw'n mynd o'r gegin a fy ngadael i yn y tywyllwch mae'n debyg, gan fod ei hoglau nhw ym mhob man. Digon cyfforddus cofiwch ond dim mor gynnes ac i lawr grisiau.

Dwi'n mentro i lawr ac yn cael croeso gan fy nwy-droediaid i a thipyn o fwyd yn fy mhowlen. Dwi'n gynnes ac yn hapus eto ac mae o wedi gwneud lle i mi eistedd ar y soffa efo fo. Mae bywyd cath yn y tŷ yma'n un braf."

# Un funud fach …

## ANODD BOD YN AMSEROL

Gaf i fod yn onest efo chi? Nid nad ydw i'n gwneud fy ngorau i fod felly bob tro, cofiwch! Meddwl oeddwn i heno am rai o'r geiriau a barodd drafferth i mi yn fy ngwaith dros y blynyddoedd. Be' ydi ystyr 'bod yn drwm', neu o ran hynny 'beidio â bod yn drwm'? Be' yn union ar y naill law ydi 'bod yn fyr' neu ar y llaw arall 'fod yn hir'? Ac yng nghyd-destun pregeth neu erthygl, be' ydi ystyr 'bod yn amserol'? Be' sy'n gwneud un neges neu un bregeth yn fwy 'amserol' na'r llall? Ers i mi ddod i gredu yn Iesu Grist, rwyf wedi credu nad oes dim yn 'fwy amserol' na dim yn fwy perthnasol i bob oes - ac ym mhob oes - na'r newydd da amdano'n dod i'r byd i farw trosom ar Galfaria. 'Iesu Grist, yr un ydyw ddoe a heddiw ac am byth' (Hebreaid 13:8). A'r un yw pobl pob oes yn eu hangen amdano a'r maddeuant a'r bywyd a sicrhaodd Iesu iddynt trwy ei farwolaeth a'i atgyfodiad.

Ie, dowch i mi fod yn onest! Hen golofn anodd ei sgwennu yw hon heno. Mae'n nes at ddiwedd Rhagfyr na'i ganol; dyw'r goeden Nadolig heb ei phrynu eto heb sôn am ei thaflu; mae bron i bythefnos o gemau Cwpan y Byd heb eu chwarae; a heb ei ddechrau bron y mae'r siopa Dolig (gen i beth bynnag). Ond rhifyn mis Ionawr yr Eco ydi hwn! Ac ydi, mae'n anodd gwybod beth i'w ddweud. Mae'n anodd cymryd arnaf fod y Nadolig a'r flwyddyn newydd wedi gwawrio. Fyddwn ni wedi cael eira cyn diwedd y flwyddyn? Fyddwn ni wedi cael gwybod na fydd Pont y Borth yn ail agor tan yr haf? Fydd tîm pêl droed Lloegr (a dowch i mi ei sibrwd yn betrusgar) wedi ennill Cwpan y Byd?

Ydi, mae'n anodd bod yn 'amserol' fis ymlaen llaw. Am ryw reswm, mae hynny'n fwy amlwg at droad y flwyddyn, ond y gwir wrth gwrs ydyw ei bod yr un mor anodd bob amser. Pwy a ŵyr beth fydd hanes yr un ohonom erbyn y daw'r rhifyn hwn o'r Wasg? Ni fedrwn gymryd unrhyw beth yn ganiataol. Onid yw'n amlwg bod ein gafael ar bethau, ac ar iechyd a bywyd ei hun, mor frau ac ansicr? Fel y dywed Llyfr y Diarhebion yn y Beibl: 'Paid ag ymffrostio ynglŷn ag yfory, oherwydd ni wyddost beth a ddigwydd mewn diwrnod' (27:1). Ni fwriadwyd y geiriau hyn i ddigalonni'r un ohonom, ond i'n cynghori ac i'n calonogi. Oherwydd, o gofio mor fregus yw pob un ohonom, yr un llyfr sydd hefyd yn dweud: 'Ymddiried yn llwyr yn yr ARGLWYDD, a phaid â dibynnu ar dy ddeall dy hun. Cydnabydda ef yn dy holl ffyrdd, bydd ef yn sicr o gadw dy lwybrau'n union' (3:5–6).

Y fath ddoethineb a'r fath fendith yw'r geiriau hyn i bawb sy'n eu cofleidio a'u derbyn. Mor werthfawr fydd i ni gydnabod yr Arglwydd yn ein holl ffyrdd trwy ddiolch am ei roddion a cheisio ei gymorth ac ymddiried yn ei ddaioni o ddydd i ddydd; ie, o ddiwedd un flwyddyn i ddechrau'r nesaf.

Blwyddyn Newydd Dda i chi oll.

**JOHN PRITCHARD**

# WAUNFAWR

**Ffarwelio**
Trist yw gorfod ffarwelio gyda dau deulu o'r pentref mis yma. Mae Ann Grindey, Fairfield yn symud i fyw i ardal Wells, Gwlad yr Haf er mwyn bod yn nes at y merched a'u teuluoedd. Mi fyddwn yn colli eich gweld o gwmpas y pentref Ann – pob dymuniad da i chi.

Hefyd yn ein gadael mae Eurwyn a Gwenda Griffith, Dalar Deg (Trefeddyg gynt). Maen nhw yn mynd i fyw i Ros Isaf, a dwi'n siŵr bydd Huw, Megi ac Eiri wrth eu boddau eich cael gerllaw i helpu efo'r gwarchod! Mae cyfraniad Eurwyn a Gwenda i fywyd y pentref wedi bod yn enfawr ers iddynt ddod yma i fyw bron i ddeg mlynedd ar hugain yn ôl, a bydd colled fawr ar eich ôl. Diolch i chi am bob dim.

Y newyddion da yw y bydd dau deulu ifanc, lleol yn dod yma i fyw, ac edrychwn ymlaen at gael eu croesawu yn ystod y misoedd nesaf.

**Ymddeol**
Dymuniadau gorau i Falmai Evans, Rhoslwyn ar ei ymddeoliad o Gyngor Gwynedd. Gobeithio byddi'n mwynhau cael mwy o amser hamdden gyda'r teulu, Falmai.



**Profedigaeth**
Yn ystod y mis, bu farw Sioned Gwynn Harries (Sioned Davies, Bryn Eithin gynt). Roedd Sioned yn byw yn Llangernyw gyda'i gŵr John, ond yn parhau â chysylltiad agos gyda Waunfawr, drwy barhau i gefnogi gwaith Antur Waunfawr, sefydlwyd gan ei thad y diweddar Gwynn Davies.

Daron, mab Sioned sydd bellach yn byw ym Mryn Eithin ac rydym yn cydymdeimlo yn fawr efo chdi Daron, ynghyd â Lowri, a'r plant Gruff ag Alffi a'r teulu ehangach, John, Elan, Rhean a Dai, Twm, Ani ac Ifan, a gyda Gwion y brawd bach.

Hefyd, bu farw mam Eurwyn, Dalar Deg. Roedd yn 92 mlwydd oed ac wedi bod yn derbyn gofal ym Mhlas Hafan, Nefyn yn ddiweddar. Cafodd ofal arbennig hefyd gan y teulu ac rydym yn cydymdeimlo â chi Eurwyn, Gwenda, Huw, Megi ac Eiri a Dafydd yn eich colled.

**Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd 2023**
Braf yw cael edrych ymlaen am yr Haf ac am yr Eisteddfod Genedlaethol ym mis Awst, ond mae gwaith cwblhau casglu arian i'n cronfa leol ni cyn hynny! Targed Waunfawr a Chaeathro ar y cyd ydi £2,000 ac mae hanner yr arian wedi ei gasglu yn barod.

Does dim dwywaith bod y pandemig wedi amharu ar unrhyw weithgareddau fyddai fel arfer wedi eu cynnal i gasglu arian. Gofynnir felly am roddion yn uniongyrchol i'n cronfa er mwyn cyrraedd y nod.

Gallwch gyfrannu drwy arian parod neu siec (taladwy i Eisteddfod Genedlaethol Cymru) a'i roi i'r Trysorydd, Sali Burns, Tŷ Capel, Waunfawr neu unrhyw un o'r swyddogion eraill - Iola Gruffydd, Tegannedd; Hawys Tuff, Llys y Waun; Cyng Edgar Owen, Waunfawr neu'r Cyng. Menna Jones, Caeathro. **Neu** mae modd i chi dalu yn uniongyrchol drwy gyfrif banc ar lein / ffôn – mae'r manylion ar wefan yr Eisteddfod Genedlaethol neu ar gael gan Sali neu Iola. Os yn cyfrannu yn y modd yma mae'n hynod o bwysig eich bod yn gadael i Sali Burns wybod er mwyn iddi hysbysu swyddfa'r Eisteddfod i roi eich cyfraniad yn erbyn ein targed pentref.

Diolch ymlaen llaw am bob cyfraniad bach neu fawr!



**Plaid Cymru**
Ni fyddwn yn cynnal cyfarfod yn ystod mis Rhagfyr oherwydd prysurdeb y Nadolig, yn hytrach byddwn yn cyd-ddathlu'r flwyddyn newydd yn y dafarn ar nos Iau, 19eg Ionawr lle byddwn yn cael cwis ac ambell gystadleuaeth arall. Dewch yn llu a dowch a ffrindiau efo chi!

**Cyfarchion yr Ŵyl**
Hebddoch chi'r darllenwyr a'r cyfranwyr, fyddai dim colofn, felly diolch yn fawr iawn i chi gyd am bob cymorth a chefnogaeth yn ystod y flwyddyn aeth heibio. 'Dolig Dedwydd i chi i gyd.








# Ysgol Waunfawr






Dyma eneth a fu'n fuddugol gyda'r gystadleuaeth llunio het fwced yn sesiwn yr Urdd – da iawn ti!

**Cwpan y Byd**
Er y siom o fod wedi colli yn erbyn Lloegr ac Iran, yr oedd y plant wedi gwirioni cael gwylio'r gemau a chael ymarfer sgiliau cadw peli yn yr awyr. Bachgen Blwyddyn 5 oedd yn fuddugol gyda'r sgôr uchaf y tro hwn.








**Thema Ail Ryfel Byd**
Dyma'r disgyblion wedi gwisgo i fyny fel ifaciwis yn ystod y thema yn ddiweddar. Bu i bawb fwynhau astudio'r cyfnod a dysgu am aelodau o'r teulu a fu mewn rhyfeloedd yn y gorffennol.







**Draig**
Diolch i Karen Jones (Karen Celf) am ein hysbysu fod draig newydd yn yr ardal – cafodd dosbarth Moel Eilio deithio i'r caeau cyfagos er mwyn cael mynd i'w weld. Cawsant groeso mawr a chanu'r anthem gyda Karen a 'Cymro'.

**Blwyddyn 6**
Mae Blwyddyn 6 wedi cychwyn ar y gweithgareddau pontio ar gyfer eleni. Bu iddynt fynychu bore o weithgareddau chwaraeon a gwneud smwddis. Yn ystod twrnament Cwpan Y Byd, bu i holl blant Blwyddyn 6 y Dalgylch gystadlu mewn twrnament am y prynhawn. Yr oedd yn braf iawn i'r plant a fydd yn trosglwyddo ddechrau dod i adnabod ei gilydd.

**Pob lwc Mrs Griffiths!**
Pob dymuniad da i Mrs Griffiths wrth iddi gychwyn ar ei chyfnod mamolaeth – edrychwn ymlaen yn eiddgar i glywed y newyddion fod y babi wedi cyrraedd.

# Ysgol Brynrefail

**Ymweliadau Pontio Blwyddyn 6**
Daeth criwiau o Flwyddyn 6 o Ysgol Waunfawr a Ysgol Dolbadarn ar dydd Mercher 15fed a Dydd Iau 16eg o Dachwedd i ymweld ag Ysgol Brynrefail. Paratowyd dau weithgaredd iechyd a llesiant ar eu cyfer.

Yn yr Adran Addysg Gorfforol, cawsant gyfle i gydweithio trwy gyfeiriannu a gwneud cysylltiad rhwng egni a siwgr mewn diodydd. Wrth symud wedyn i'r Adran Bwyd a Maeth, cawsant gyfle i flasu a chreu diodydd egni iach eu hunain yn ogystal â dysgu am yr effaith mae diodydd gyda gormod o siwgr a chaffin ynddynt, yn ei gael ar y corff.

Daeth ysgolion cynradd Llanrug, Bethel, Penisarwaun a Gwaun Gynfi draw atom rhwng dydd Gwener yr 17eg a dydd Mercher yr 22ain o Dachwedd. Cawsant gyfle i wneud gweithgareddau Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn ystod y bore. Roedd pawb wedi mwynhau a chael hwyl, ac rydym yn edrych ymlaen i'ch croesawu yma ym mis Medi 2023!



**Cynulliad Dyffryn Peris**
Diolch o galon i'n prif eneth Millie Williams, ac i Eira Jones o flwyddyn 8, am gynrychioli'r ysgol yng Nghynulliad Cymunedol Dyffryn Peris yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis ar nos Fercher, Tachwedd 23ain, a chyflwyno syniadau ein disgyblion ynghylch datrysiadau gwyrdd.

**Cylchdro**
*Merched, mislif a phêl-droed*
Mae Ynys Blastig yn falch o'r cyfle i weithio ar brosiect Cylchdro mewn partneriaeth gyda'r Urdd a Chyngor Gwynedd trwy nawdd Y Loteri Cenedlaethol wedi ei ddosbarthu gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Bwriad Cylchdro yw cydweithio yn greadigol gyda merched ifanc i greu adnoddau digidol sy'n dathlu a hyrwyddo merched mewn pêl-droed gan ystyried effaith y mislif ar hynny. Gyda Chwpan y Byd 2022 yn cael ei gynnal dros 28 diwrnod, rydym am ddathlu llwyddiant Y Wal Goch o berspectif merched sy'n chwarae pêl-droed a'u cylchdro misol.

Rydym am annog trafodaeth gonest, diogel ac agored er mwyn hyrwyddo dealltwriaeth merched o'u cyrff a chefnogi eu llesiant. Byddwn yn cynnal gweithdai creadigol wyneb yn wyneb ac ar lein gan sicrhau bod y cynnwys yn briodol o ran oed ac yn cyd-fynd â Pholisi Amddiffyn a Diogelu Plant Ynys Blastig. Bydd cynnyrch y gweithdai yn cael eu defnyddio o fewn yr adnoddau, a hynny yn ddi-enw, er mwyn annog trafodaeth gonest a chadarnhaol am effaith y mislif ar fywydau merched. Caiff yr adnoddau eu rhannu gyda ysgolion, clybiau pêl-droed a chymdeithasau yn genedlaethol ac yn y Gymraeg.






Cafodd gweithdai creadigol eu cynnal gan Iola Ynyr yma yn Ysgol Brynrefail gyda merched blynyddoedd 8 – 12 sy'n chwarae pêl-droed yn cyflwyno ysgrifennu creadigol a chelf gweledol. Mwynhaodd pawb a gymerodd ran y gweithdy a diolch i Iola am ddod atom i'w cynnal.

**Plant Mewn Angen**
Aethpwyd ati i gasglu arian i Blant Mewn Angen yn ôl yr arfer. Roedd y diwrnod yn fodd i'r staff a'r disgyblion gael ychydig o hwyl wrth wisgo gwisg ffansi yn ystod y dydd. Felly ar ddydd Gwener, 18fed Tachwedd creodd sawl aelod o staff a disgyblion y chweched dosbarth dipyn o gynnwrf a hwyl oherwydd eu gwisgoedd doniol.



Penderfynodd staff yr adran Gymraeg wisgo fel cymeriadau o wahanol nofelau Cymraeg fel *Cywion Uffern* gan Sonia Edwards. Eleni gwisgodd staff yr adran Wyddoniaeth fel cymeriadau gêm Nintendo Mario a gwisgodd staff yr adran Saesneg fel plismyn a lladron! Cymeriadau o America oedd yr adran Ddyniaethau ac un cymeriad, sef Donald Trump yn codi braw ar bawb! Chwarae teg i'r chweched dosbarth a wnaeth ymdrech hefyd yn eu gwisgoedd James Bond, tylwyth teg a'u pyjamas! Roedd y disgyblion wrth eu boddau a chasglwyd swm anrhydeddus o £480 tuag at yr achos arbennig yma. Diolch i'r holl staff a ddaeth yn eu gwisgoedd ffansi ac i bawb a gyfrannodd ar y diwrnod.





Tafarn Y Glyntwrog Llanrug

Bwyd ardderchog am brisiau rhesymol
Bydd croeso cynnes yma bob amser



671191

# LLANRUG

**Diolchiadau**

Dymuna Eryl, Leri, Iolo a'r teulu oll, ddiolch o galon am yr holl gefnogaeth a chydymdeimlad a ddangoswyd yn ystod eu profedigaeth lem o golli Islwyn – gŵr, tad, taid a hen-daid annwyl. Diolch am garedigrwydd teulu agos, ffrindiau a chymdogion yma yn Llanrug a'r pentrefi cyfagos. Diolch am alwadau personol, cardiau, blodau a chacennau ac yn enwedig y rhoddion ariannol er cof, sydd ar hyn o bryd yn £2,000. Byddwn yn eu rhannu rhwng elusennau lleol. Diolch am gefnogaeth hynod Meinir Griffiths yn ei threfnu ar gyfer yr angladd a bod yn gefn mawr i ni fel teulu yn ystod yr amser anodd iawn. Diolch i'r Parch. John Pritchard am ei gefnogaeth yntau cyn ac ar ddiwrnod yr angladd, am ei arweiniad teimladwy iawn. Hefyd i Mrs Eurwen Darwood am ei gwasanaeth ar yr organ yn yr Amlosgfa. Diolch i bawb.



**Pedair Cenhedlaeth**

Dyma lun o bedair cenhedlaeth. Gwenllian (Mam), Linda (Nain) a Mona (hen nain) yn magu Mabli Fflur yn 2 Parc Canol, Llanrug.

**Llongyfarchiadau**

Llongyfarchiadau i Dee a David Barker, 14 Hafan Elan ar achlysur eu priodas ym Mhortmeirion ar 20fed o Dachwedd. Dymuniadau gorau iddynt i'r dyfodol.

**Merched y Wawr**

Ar 13eg Rhagfyr, am 5.00yh, cyfarfu aelodau'r gangen yn 'Y Wal', Caernarfon i ddathlu'r Nadolig. Bydd manylion pellach i'w cael yn y rhifyn nesaf. Edrychir ymlaen ar 10fed Ionawr am 'Ymarferion Ioga' gyda Leusa Mererid. Atgoffir genod Penisarwaun mai nhw fydd yn gofalu am y Raffl a'r baned. Pob hwyl i bawb dros yr Ŵyl.

**Clwb Clychau'r Grug**

Cyfarfu'r genod ar 7fed Rhagfyr yn Villa Marina, Caernarfon, gyda diolch i Ann Thomas a Heulwen Ann am wneud y trefniadau.

Llongyfarchwyd Gwyneth ar ei phen-blwydd arbennig a chyflwynwyd tusw o flodau iddi gan anfon ein dymuniadau gorau i Gwyn ei gŵr sy'n derbyn triniaeth yn yr ysbyty. Anfonir ein dymuniadau gorau i Glenys a Siencyn dros yr Ŵyl yn Llanharan, ger Caerdydd.

**Apêl Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023**

Mae Apêl Codi Arian tuag at Eisteddfod Genedlaethol Llŷn ac Eifionydd, 2023 yn mynd ymlaen o nerth i nerth gyda nifer o weithgareddau byrlymus ac amrywiol wedi eu cynnal, ac erbyn hyn mae cyfanswm yr arian a godwyd ychydig uwch na £4,000. Mae angen rhagor i gynnal Eisteddfod o safon aruchel yn 2023, ac felly dewch yn llu i gefnogi ein gweithgareddau yn ystod y misoedd nesaf.

Dyma'r digwyddiadau sydd i'w cynnal ym mis Ionawr:

Twrnament Dartiau yn Penbont, a gynhelir erbyn hyn ar nos Sadwrn, 21ain Ionawr. Sylwer fod y dyddiad wedi newid o'r dyddiad a drefnwyd yn wreiddiol, sef 17eg Rhagfyr. Dewch i fwynhau eich hunain wrth chwarae dartiau. Mae'n argoeli i fod yn noson llawn hwyl ac yn gyfle i chi ddangos eich doniau gyda'r dartiau. Beth gewch chi'n well ar ôl i holl asbri'r Nadolig a'r Flwyddyn Newydd ddistewi! Am fwy o fanylion cysylltwch â Bethan Roberts ar 07796 374316.

Sesiwn o Ddarllen Noddedig a gynhelir yn y Sefydliad Coffa nos Iau, 26ain Ionawr o 7 hyd 9



**Ymddeoliad**

Caeodd Martin Gardiner ddrysau Becws Bryngwyn ddiwedd Tachwedd. Bu'n gwasanaethu'r ardal ers 1960, sef 62 mlynedd yn ôl. Yno y cyfarfu â'i wraig, Gwenda Lewis, a oedd yn gweithio yn y becws, a bu i'r ddau briodi yn 1965. Cawsant saith o blant a phob un yn eu tro yn helpu yn y siop. Patrwm gwaith Martin oedd codi am 4.00 y bore i ddechrau pobi. Ca'i gyntun bach yn y pnawn ac yna i'r gwely am 6.00 gyda'r nos. Bydd newid yr oriau yn dipyn o chwithdod iddo. Diolch iddo am wasanaethu'r ardal dros y blynyddoedd, a dymunwn y gorau iddo yn ei ymddeoliad.








**Taith Marie Curie i Batagonia – Tachwedd 2022**

Dwi'n ffodus iawn o fod newydd ddychwelyd o daith anhygoel oedd yn brofiad unwaith mewn oes. Cafodd Lois a fi y fraint o gyd-gerdded gyda 24 o Gymry eraill mewn taith noddedig tuag at yr elusen arbennig Marie Curie, a hynny ar draws paith Patagonia. Roeddem yn dilyn ôl traed y gwladgarwyr Cymreig cyntaf wnaeth y daith flinedig ac anodd hon ar draws anialdir sych a chras, gan sefydlu'r Wladfa. Yr her oedd cerdded oddeutu 120km mewn tymheredd crasboeth, gan wersylla mewn pebyll ar y ffordd. Roedd y paith yn syfrdanol o brydferth, y bywyd gwyllt a'r daeareg yn unigryw. Roedd aml uchafbwynt ond y pinacl oedd ein ymweliad â threfi Trefelin, Gaiman a Threlew. Roedd pawb yn emosiynol iawn o gael croeso mor gynnes ac hefyd o glywed sut mae'r ysgolion Cymraeg a'r diwylliant Cymraeg yn ffynnu. Ein anrheg ni i Ysgol y Cwm yn Nhrefelin oedd baner 'Yma o Hyd' wedi ei llofnodi gan eu arwr, Dafydd Iwan. Ac er fod hon yn anrheg rhyfeddol i'r plantos roedd eu anrheg nhw i ni, y profiad cyflawn, yn amhrisiadwy. Diolch o waelod calon i deulu, ffrindiau a'r gymuned gyfan am eich rhoddion hael, eich cefnogaeth a'ch anogaeth. Mae'r daith wedi casglu £220,000 hyd yn hyn i gefnogi gofal diwedd oes Marie Curie yn lleol a thrwy Gymru. Swm anghredadwy ar ddiwedd profiad anghredadwy.

Dr Esyllt Llwyd.



**Plaid Cymru Llanrug a'r Cylch**
Yng nghyfarfod mis Tachwedd, braf oedd croesawu tair cynghorydd ifanc newydd atom sef Menna Jones, Sasha Williams a Kim Jones, ynghyd â'r Cynghorydd Beca Brown (Llanrug) a'r Cynghorydd Berwyn Parry Jones (Cwm y Glo). Dros baned, cawsom gyfle i ddod i wybod mwy am y dair cynghorydd ifanc brwdfrydig. Bydd manylion am gyfarfodydd y flwyddyn newydd yn ymddangos yn rhifyn nesaf o'r Eco.

o'r gloch. Mae'n debyg iawn i daith gerdded noddedig ond eich bod yn darllen yn hytrach na cherdded, ac felly bydd gofyn i chi gael pobl i'ch noddi i ddarllen. Gallwch ddarllen llyfr, cylchgrawn ayyb yn farddoniaeth, rhyddiaith neu ffeithiol, a rhaid iddo fod yn yr iaith Gymraeg. Darperir lluniaeth ysgafn a hynny yn ddi-dâl. Am fwy o fanylion a ffurflenni nawdd, cysylltwch â Mary Roberts ar 07877 542475.

Cofiwch ddarllen tudalen gymunedol Llanrug – Llanrug Ddoe a Heddiw ar Facebook am fwy o hanes digwyddiadau.

**Capel y Rhos**
Mor braf yw cael cyhoeddi y bydd ein Gweinidog newydd - Y Barchedig Nerys Griffiths o Gaernarfon yn cychwyn ar ei gweinidogaeth gyda ni yn ystod mis Ionawr. Rydym yn edrych ymlaen yn fawr at gael ei chroesawu atom ac mae'n dymuniadau gorau a phob bendith yn mynd iddi ar ddechrau cyfnod newydd yn ei gyrfa.

**Oedfaon mis Ionawr:**
Ionawr 1 - Parch. Carwyn Siddall
Ionawr 8 - Parch. Trefor Lewis
Ionawr 15 - Y Gweinidog Y Barch. Nerys Griffiths
Ionawr 22 - Ms Eleri Jones
Ionawr 29 - Mr Alun Morton Thomas

**Ail-gydio yn y ciw draw yng Nghlwb Snwcer Llanrug**
Mae Clwb Snwcer Llanrug wedi gweld hen wynebau a rhai newydd yn ymweld â'r Clwb ers iddo ddechrau ailagor yn rheolaidd bob nos Fawrth a nos Iau (6:30yh) yn wythnosol.

Gyda diolch i Glwb Ieuenctid Llanrug, mae nifer o bobl ifanc 11-14 oed wedi datblygu diddordeb go dda yn y gêm. Hynny tra bod criw o rai mymryn yn hŷn i weld yn hoff iawn o'r gêm ac yn ddefnyddwyr rheolaidd o'r Clwb yn ddiweddar. Hefyd mae ambell chwaraewr a oedd unwaith yn cael eu hadnabod fel rhai 'ifanc' y Clwb wedi ail-gydio yn y ciw yn ôl ac wedi dychwelyd at y bwrdd gwyrdd.



Er na chaeodd Clwb Snwcer Llanrug y drysau yn swyddogol, nid oes tîm o'r Clwb wedi bod yng Nghynghrair Bangor a'r Cylch dros y ddau dymor diwethaf - hyn er i Glwb Llanrug ennill y Gynghrair nôl yn 2020, gyda dau (weithiau tri!) tîm o'r Clwb yn rhan o'r gynghrair dros y blynyddoedd.

Fodd bynnag, mae gobaith bellach wedi dychwelyd gydag ysfa newydd yn gwthio'r Clwb yn ei flaen.

Er mwyn helpu i gynnal y Clwb a'r byrddau yn y dyfodol, bydd Clwb Snwcer Llanrug yn ailgyflwyno system aelodaeth o Ionawr 2023 ymlaen.
- £10 i oedolion
- £6 i oedrannau 14-17
- £4 os ydych dan 14 (cofiwch fod angen cwmpeini rhiant neu oedolyn gyd chi os ydych yn y grŵp yma.)

Fel rhan o'ch tâl aelodaeth, bydd tair Cystadleuaeth Clwb yn cael eu cynnal o Chwefror 2023 ymlaen, sef: Cystadleuaeth Sgôr Handicap (0 i +40 o bwyntiau ar gychwyn bob ffrâm, yn ddibynnol ar brofiad), Cystadleuaeth Oedolion a Chystadleuaeth dan 17.

Bydd bob un sydd yn aelod erbyn 31 Ionawr yn cael eu cofrestru yn awtomatig. Bydd enwau'n cael eu tynnu allan o het ar gyfer pob rownd a bydd bob rownd yn y gorau o dair ffrâm (felly cyntaf i ddau).

Bydd y Cystadlaethau Clwb yn cael eu rhedeg dros gyfnod o tua deufis - holl ddibynnol ar y niferoedd - efo'r gobaith mai dyma bydd y drefn flynyddol ar gyfer y Clwb o hyn allan.

Hefyd y nod yw bydd y Cystadlaethau Clwb yn helpu i ddenu rhai o'r chwaraewyr sydd wedi cynrychioli Clwb Snwcer Llanrug dros y blynyddoedd, yn ogystal â rhai newydd drwy'r drysau.

Hyn oll wrth ail-greu'r awch cystadleuol iach mae Clwb Snwcer Llanrug wedi bod yn adnabyddus amdano dros y blynyddoedd.

Byddwn yn cynnig diweddariadau ar y cystadlaethau hyn yn rhifynnau'r Eco yn y dyfodol.

Am ragor o wybodaeth am Glwb Snwcer Llanrug, ewch i dudalen Facebook Clwb Snwcer Llanrug neu cysylltwch â Goronwy Hughes neu Danny Griffith (07525717344) os gwelwch yn dda.




SPAR
Y Storfa, Spar, Llanrug
Sgwâr Llanrug
01286 673108

Bwydydd, Diodydd, Papurau Newydd, Cardiau Cyfarch, **Swyddfa Bost**
a chroeso cynnes
Llun - Sadwrn 6:30am - 9pm, Sul 8am - 9am

Gwaith Coffaol
LLANRUG
Y Sgwâr
Llanrug
Caernarfon
Gwynedd
LL55 4AA

☎ 01286 672898

AM WASANAETH PERSONOL A GOFALUS
DYLAN GRIFFITH
*Trefnwyr Angladdau Annibynnol a Lleol*
TROS Y WAEN PENISARWAEN
Gwasanaeth Teimladwy a Phersonol
24 Awr y Dydd
Capel Gorffwys Preifat
Yn Gwasanaethu yr Holl Ardal
Busnes Teuluol
*Ffôn : 01286 871833 (SYMUDOL: 07778127394)*

# Rheilffordd yr Wyddfa

Soniwyd am agor y rheilffordd gyntaf yn 1869 pan gysylltwyd Llanberis a Chaernarfon gan y London & North Western Railway. I'r perwyl hwn, cyflwynwyd Bil yn y Senedd yn 1871 i gael pryniant gorfodol ond fe wrthwynebodd Mr Assheton-Smith o Stad y Faenol gan gredu y byddai rheilffordd yn amharu ar yr olygfa. Am yr ugain mlynedd nesaf ddigwyddodd yna ddim tan y daeth 'na gynllun i adeiladu rheilffordd o'r Rhyd Ddu. Perswadiwyd Assheton-Smith y byddai canolbwynt twristaidd yr ardal yn symud yno o Lanberis, a rhoddodd ei fendith i'r rheilffordd. Gan mai Assheton-Smith oedd berchen yr holl dir, doedd dim angen Bil arall yn y Senedd ac fe gychwynnodd y gwaith yn Chwefror 1894. Enid, merch Assheton-Smith wnaeth dorri'r tir gyntaf a chafodd injan rhif 2 ei henwi ar ei hôl. Y gost terfynol oedd £63,800 sydd tua £8 miliwn yn nhermau heddiw. Cafwyd y trenau cyntaf ym Mehefin 1895 ac fe'i defnyddiwyd yn y gwaith o osod y trac. Y gwaith mwyaf oedd adeiladu'r ddwy draphont yn Llanberis a ger y Ceunant Mawr. Ar ôl hynny, bu i'r gwaith fod yn eithaf cyflym gyda'r trên gyntaf ar y copa erbyn Ionawr 1896. Gan nad oedd y signalau a'r ffensio wedi eu cwblhau, gohiriwyd yr agoriad swyddogol tan y Pasg. Bu'r ddamwain gyntaf ar Sadwrn y 4ydd o Ebrill, wrth i'r trên daro craig oedd wedi disgyn o'r toriad a neidio'r trac, ond llwyddwyd i gywiro pethau'n eithaf rhwydd – ond roedd gwaeth i ddod. Ar ddydd yr agoriad swyddogol sef Llun y 6ed o Ebrill 1896, anfonwyd dwy drên am y copa, y ddwy gyda dau gerbyd. Ladas oedd trên rhif 1 ac ar ei ffordd i lawr fe neidiodd y trac a disgyn dros ochr y mynydd. Neidiodd un teithiwr o'r cerbyd gan gael anaf difrifol a gwaedu i farwolaeth. Yna i goroni pethau fe hyrddiodd yr ail drên i gefn cerbyd y gyntaf, ond ni fu i neb gael anaf difrifol. Daeth yr ymchwiliad i'r ddamwain i'r canlyniad fod y trên yn rhy drwm, a hefyd fod y trac wedi suddo. Cafwyd cerbydau ysgafnach a system o gael y trên yn gafael yn y trac. Yn ystod 30au'r ganrif ddiwethaf fe gynlluniodd Clough Williams-Ellis (Portmeirion) yr hen gaffi ar y copa. Rhaid fu lleihau maint y ffenestri gan fod y gwynt yn eu chwalu, ond yn 1983 trosglwyddwyd eiddo'r caffi i Gyngor Gwynedd ac yna adeiladwyd Hafod Eryri, gafodd ei agor gan Rhodri Morgan ar 12fed o Fehefin 2009.


Llun cynnar o'r copa

**TEYRNGED**

## Thomas Rhys Evans – Rhys Cae Stan

Tachwedd 5: fydd y dyddiad byth yn golygu dydd Guto Ffowc i mi eto gan mai ar y dyddiad hwn eleni y rhoesom fy mrawd, y diweddar Thomas Rhys Evans, Gwelfryn, Llanrug – Rhys Cae Stan – i orffwys ym Mynwent Cefnfaes, Dinas, Llanwnda. Bu farw'n sydyn ac annisgwyl yn 71 mlwydd oed yng nghwmni ei wraig Tesni ac amryw aelodau o'r teulu nos Sadwrn, Hydref 22. Byddai'n dal i fyny â mi, Richard ei frawd hynaf, am bythefnos bob blwyddyn. Dim ond 50 wythnos oedd rhyngom, a bu hynny'n destun cellwair a thynnu coes dros y blynyddoedd.

Fe'i rhoddwyd i orffwys ym medd fy nhad, Richard Thomas Evans, Dinas Farm, Bontnewydd (a fu farw ar Orffennaf 19, 1967) a'm mam, Menna Evans, Cae Stanley, Bontnewydd (a fu farw ar Ionawr 15, 1999).

Y peth cyntaf i'w ddweud yw fy mod yn sicr wedi colli un o'm ffrindiau gorau: un o'r ffeindia a chlenia' i mi ei nabod erioed. Roedd yn boblogaidd iawn; wastad yn barod ei gymwynas i unrhyw un mewn helbul; yn mynd cyn belled ag y gallai i roi cymorth; yn driw i'w werin ac yn ddyn ei filltir sgwâr.

Adwaenai lawer o fel 'Rhys JCB'. Bu'n gyrru peiriannau o'r fath ers ei ugeiniau cynnar. Dechreuodd ei yrfa gyda chwmni Hogan's, Bangor, wedi iddo glywed fod y cwmni'n chwilio am yrrwr peiriant ar draciau ar gyfer contract yn chwarel Cibyn. Pan aeth i holi am y gwaith, gofynnwyd iddo a fedrai yrru'r peiriant. 'Medra', meddai Rhys, er nad oedd erioed wedi eistedd ar un! A dyna gychwyn gyrfa fel gyrrwr 'heavy plant' o bob lliw a llun. Crwydrodd i lawer cwr o'r wlad i weithio i rai o gwmnïau mawr y busnes. Aeth cyn belled â De Lloegr gyda chwmni Jones Brothers o Ruthun. Teyrnged i'w gymeriad a'i gyfeillgarwch oedd y ffaith y gallai gael sgwrs â llawer o'i gyn-gyflogwyr hyd y diwedd. Wrth ymweld â rhywun yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar, gwelodd un o'r brodyr Hogan mewn gwely cyfagos: roedd hwnnw mor falch o'i weld a bu'r ddau'n trafod yr hen amser am hydoedd. Clywodd ddechrau'r haf fod aduniad i yrwyr Jones Brothers i'w gynnal yng Ngwesty'r Oriel House yn Llanelwy ym mis Hydref. 'Dwi am fynd', meddai wrthyf, 'nei di drefnu stafell i mi am y noson?' Braint oedd cael gwneud hynny. Aeth i'r aduniad, ac er nad oedd lawer yno o gofio maint y cwmni, cafodd amser gwerth chweil gan fod y mwyafrif oedd yno'n weithwyr o'r amser y bu o efo'r cwmni. Rwy'n sicr y bu llawer i sgwrs ac atgofion ac rwy'n falch iddo gael bod ymhlith hen gyfeillion. Ychydig a wyddem na fyddai Rhys efo ni lawer yn hwy.

Roedd yn dipyn o grwydryn a wastad yn fachog am drip i unrhyw le. Flynyddoedd a fu, crwydrodd lawer ar gyfandir Ewrop efo Arthur Wyn, a oedd yn dreifio i Parry's Transport ar y pryd. Un stori y byddai Rhys yn ei gwadu ond y byddai Mam yn mynnu ei bod yn wir oedd honno amdani'n gofyn iddo fynd i nôl torth o'r siop yn Bont un bore Sadwrn. Gan weld Rhys mor hir yn dod nôl, aeth i weld beth oedd ei hanes. Roedd ei gar o flaen y siop, â nodyn ar y dash, 'Wedi mynd efo Arthur. Mi fydda' i nôl ddydd Llun.' Er iddo ei gwadu, dyw'r hanes yn synnu dim arnaf.

Un o'i dripiau pennaf oedd wythnos yn y Sioe Frenhinol yn Llanelwedd bob mis Gorffennaf. Credaf na fu iddo fethu'r un sioe tan yr ha' dwytha pan oedd yr iechyd yn dechrau pallu a Rhys yn teimlo fod yr ymweliad yn ormod o sialens. Ond nid y Sioe yn unig: roedd rhaid mynd i'r Ffair Aeaf ac i'r 'Smallholders' hefyd. Crwydrai'n aml efo Dafydd ei ffrind o Lanfaelog i sêl ffarm yn rhywle: nid oedd unrhyw le yng Ngogledd Cymru'n rhy bell gan ei fod wrth ei fodd yn mynd i sêl, 'end of!'

Cafodd ambell i sgeg gyda'i iechyd dros y blynyddoedd. Yn ei arddegau cynnar cafodd driniaeth go egr yn Ysbyty Llangwyfan i dynnu dau dyfiant oddi ar ei ysgyfaint a cholli darn go fawr o un ysgyfaint; a chafodd wedi hynny broblemau efo datblygiad ei asgwrn cefn a llawer i bwl o bronchitis. Yn ystod yr wythdegau, bu mewn lle cyfyng iawn wedi i ddraenen ddu beri gwenwyn reit sobor yn ei waed: bu'n wael cyn hired nes iddo orfod rhoi'r gorau i'w waith, efo Jones Brothers os cofiaf yn iawn. Tua saith neu wyth mlynedd yn ôl, anafodd ei ben mewn damwain front wrth ei waith, a gorfu iddo gael llawdriniaeth argyfwng yn Ysbyty Gwynedd. Er hyn i gyd, byddai'n rhadlon braf y rhan fwyaf o'r amser.

Un o'i bleserau nos Sadwrn fyddai mynd am dro bach efo Tes, yn y fan wen ran amlaf, i Gricieth am 'fish a chips' ac yna hufen ia o Cadwaladr. Roedd yn arw am hufen ia: yn ddim o beth byddai'n erfyn ar ei dad am gael mynd 'i bom i nôl bibim' - sef, o'i gyfieithu, 'mynd i Bont i nôl ice-cream'!

Gallwn ymhelaethu am dudalennau am Rhys, ond rhaid aros. Mae pawb oedd yn ei nabod yn gwybod yn union sut gymeriad oedd o, ac roedd y gynulleidfa yng Nghapel y Rhos, Llanrug ac ym Mynwent Cefnfaes yn dyst i'w boblogrwydd.

Cwsg yn dawel fy annwyl frawd. Er mai 'brawd bach' oeddet i mi, roeddet yn gawr o ddyn.

**Richard Evans**

# Llên Natur

## Wyt Ionawr yn oer - ‘heth’ mawr 1895-6

Mae’r llun hwn o lyn Padarn dan rew yn llun sydd yn llawn gwybodaeth - ac ar yr un pryd mor ddieithr i ni heddiw. Mae’r dieithrwch yn ddigon i styrbio dyn. Nid oedd pobl dda Llanberis yn 1895-6, dim un o’r 70 o eneidiau sy’n cael tynnu ei lun ynghanol tywydd milain y gaeaf blin hwnnw, yn gwybod unrhyw beth am Gynhesu’r Ddaear….. ac yn malio llai. Gwyn eu byd ddywedwn i.

Ac eto roedd hadau’r Argyfwng Hinsawdd sy’n ein hwynebu heddiw, eisoes wedi eu plannu cryn hanner canrif ynghynt. Y flwyddyn 1850 yw’r flwyddyn y cymerir fel y trothwy rhwng diwedd y byd “naturiol” a chychwyn y byd “dynol”. Rydym ar hyn o bryd 1.2°C uwchben y tymheredd ‘naturiol’ hwnnw - ac yn gyflym mynd am dymheredd llawer mwy diolch i’n ffordd afradus ni o fyw.

Ond yn ôl at y llun. Mae Castell Dolbadarn yn blaen i’w weld yn y cefndir - dim coeden ar ei gyfyl fel sydd heddiw. Mae’r criw sydd wedi dod ynghyd wedi dosbarthu eu hunain, yn ôl eu gwisgoedd, rhwng y parchus i’r chwith, a’r werin dlawd i’r dde. Mae’r rhew yn ddigon trwchus i gynnal yn gyffyrddus nid yn unig y bobl hyn (a mwy mae’n siŵr, heibio daliad y camera) ond ceffyl a thrap hefyd. A beth am y cwch swanc yn y tu blaen? Pwy sydd eisiau cwch os nad oes dŵr? Na, nid cwch mohono o gwbl, ond iot-rhew (os dyna wnaiff y tro am ‘*ice yacht*’). Dyna i chi ‘gerbyd’ sydd mor ddiflanedig-farw erbyn hyn, does dim sôn amdano hyd yn oed yn ein geiriaduron! Gwnewch y sỳms (70 o bobl yn pwyso ar gyfartaledd 140 pwys yr un + hanner tunnell o geffyl a thrap a chwarter tunnell o iot-rhew). Prin nad oes llyn yn unman sydd wedi rhewi cymaint â hyn yn oes yr un ohonom sy’n fyw heddiw faint bynnag ein hoedran. 1947 a 1963…. efallai.



Mi fentrodd rhai o bobl y pentre ar y rhew yng ngaeafau 1947 a 1963? Efallai mai 1963 oedd y tro olaf i rew afael yn agos mor dynn ar y llyn. Cawn weld!




**Pobl yn cerdded ar Lyn Padarn yn 1963**

Beth sy’n arbennig am Lyn Padarn felly - a’r gaeafau hynny? Nid dwyster yr oerfel yn unig sy’n cyfri am y rhew trwchus ar wyneb y llyn - ond hŷd yr oerfel hefyd, wythnosau bwy gilydd. Y rheswm mae llynnoedd dyfnion fel Padarn a Cwellyn yn rhewi’n llai aml na llynnoedd bâs fel Ogwen a Dinas (Beddgelert), yw eu natur haenog. Mae dyfroedd y rhai dwfn yn ymrannu yn ddwy haen neu ran. Fel mae dŵr yr wyneb yn oeri mae’r stôr o ddŵr cymharol gynnes yng ngwaelod y llyn yn gorfod codi yn llwyr i’r wyneb ac oeri ei hun cyn dechrau rhewi. Mae hynny’n cymryd amser yn ogystal ag yn gofyn tymheredd isel cyson. Mae’r cyfuniad hwnnw yn cael ei alw yn “heth“ mewn rhai ardaloedd. Dydi heth arall ddim yn debygol o ddigwydd yn fuan nac yn hawdd wrth i’r wlad - a’r byd - gynhesu. Dyna pam fod llun Llyn Padarn yn 1895-6 yn hanesyddol mewn mwy nac un ystyr.

# Y Drws Ffrynt

Gaeaf caled 1963 oedd hi a phentref Waunfawr dan eira mawr a rhew.

Yn ymlafnio drwy’r eira trwchus un bore roedd John Roberts, Llwyn Celyn, neu ‘John Cae Mawr’ fel ei adwaenid gan bawb yn yr ardal. Wrth sathru ei ffordd heibio’r bwthyn Tŷ’n Llwyn ynghanol y pentref, clywodd John lais dynes yn gweiddi’n bryderus ac wrth droi i edrych, gwelodd mai Mrs Minnie Bailey-Williams, gwraig y bwthyn oedd yn y ffenest yn ceisio dal ei sylw. “John Robaitsh! Fedrwch chi ddŵad yma i drio gneud rwbath i’r hen ddrws ffrynt ‘ma? Mae o wedi chwyddo’n ofnadwy a fedra’i yn fy myw i agor o!”

Fel pob cymwynaswr da, yno aeth John i geisio achub y sefyllfa gan ddechrau gwthio’r drws chwyddedig yn nerthol gyda’i ysgwydd. Wedi rhai munudau o wthio a hyrddio, doedd dim argoel fod y drws ystyfnig am ildio a John druan yn pystachu a chwythu a chael trafferth i arbed ei draed rhag llithro ar y llwybr rhewog.

Dros y ffordd â’r bwthyn roedd garej cwmni’r bysiau Whiteway, ac yno ar y cwrt tu allan yn clirio’r eira roedd Robin Arthur Owen a Robin ‘Fawr’ Jones, dau o yrwyr y cwmni. O weld John druan mewn helbul, gadawodd y dynion eu brwsys a rhawiau ar wal y garej a chroesi at y bwthyn i’w gynorthwyo. Erbyn hyn roedd John wedi llwyr ddiffygio, a thra bod yntau’n cael seibiant a’i wynt ato, aeth y ddau Robin ati i geisio rhyddhau’r drws gyda’u holl egni. Bu’r ddau yn gwthio a gwthio a hyrddio ac ergydio ond er eu hymdrechion, doedd y drws yn symud yr un fodfedd â’r ddau yriedydd o ganlyniad yn prysur golli hyder. Yna, a hwythau ar fin rhoi’r ffidil yn y to, tarodd John ‘Cae Mawr’ ar syniad.

“Gwrandwch hogia!” meddai. “Arhoswch chi yn fanma i wthio a mi a’i inna rownd i’r cefn i dynnu ar yr handlan o’r tu mewn!”

Ffwr a John i’r cefn yn llawn brwdfrydedd a chyda’r comand o “All hands” rŵan!’ drwy’r twll llythyrau, dechreuwyd ar yr ymdrech nerthol o wthio a thynnu.

Wedi rhai munudau o ymlafnio ac yn sŵn y ddau Robin yn ochneidio a damio bob yn ail a sathru traed ei gilydd, yn sydyn, sylwodd John beth oedd y rhwystr. Ow! ac Ow! Nid y drws ffrynt oedd wedi chwyddo’r bore hwnnw, ond y bowlten haearn a ddefnyddiwyd i’w gloi oedd heb ei hagor, ac wrth iddo ei rhyddhau o dwll y clô, agorodd y drws fel corwynt â’r ddau Robin o ganlyniad yn glanio’n bendramwnwgl ar gefn John druan ar lawr y lobi!.

Ynghanol yr holl fwstwr roedd Mrs Bailey-Williams wedi ei chynhyrfu’n lân. “O diar!” gwaeddodd a’i dwylo dros ei chlustiau. “O’r nefi! Be gythgan ddigwyddodd?” cyn prysuro i geisio codi’r cymwynaswyr nôl ar eu traed. Drwy drugaredd doedd yr un ô’r tri wedi cael niwed, hynny arwahân i Robin Arthur darodd ei benelin ar dalcen y seidbord.

Wedi paned boeth i gynhesu â “Diolch yn ofnadwy!” gan wraig y tŷ, dychwelodd y tri samaritan nôl i ganol yr eira i barhau â’u dyletswyddau.

Meddai John ‘Cae Mawr’ wedyn. “Yr hen bowltan felltith ‘ma ddrysodd petha. Finna fel lledan ar lawr a’r ddau arall ‘ma yn gorwadd ar fy mhen i! Y ffashwn stryffâg i gythral o ddim!”

**Gwilym Morris Jones.**

# Waunfawr 1940 - Rhan 1

Dyddiadur a rhai o atgofion o'r flwyddyn 1940, gan y ddiweddar Mary Awstin Jones, Penrhos, Waunfawr. Arferai Mary a John, ei gŵr, redeg busnes siop a becws ym mhentref y Waunfawr am dros 40 o flynyddoedd. Mae'r dyddiadur yn adlewyrchu hanes a bywyd yn yr ardal ac yn cyfeirio at rai o'r cymeriadau unigryw'r adeg honno. Roedd y dyddiadur wedi bod yn gorwedd mewn drôr yn y cwpwrdd am dros 40 mlynedd, nes iddo ddod i olau dydd yn y flwyddyn 1981.

* * *

**Dyfyniad o'r Dyddiadur hwnnw**

Does dim yn plesio Einir fy wyres fach fusneslyd deirblwydd oed yn well na chael chwilota trwy ambell ddrôr neu gwpwrdd a dod o hyd i wahanol bethau.

A'r diwrnod o'r blaen tra'n sefyll o flaen y cwpwrdd mawr ym mhen y grisiau – y math o gwpwrdd bydd rhywun yn 'stwffio' pob peth ar draws ei gilydd iddo er mwyn eu cadw o'r golwg, gofynnodd y fechan, "Be sydd yn hwn Naiyn?" ac er ei llawenydd agorais ei ddrws, a dyna lle buo'n i'll dwy yn troi ac yn trosi trwy grombil y cwpwrdd - a dyna sut daeth y dyddiadur roeddwn wedi ei ysgrifennu dros ddeugain mlynedd yn ôl i'r golwg.

"Mae ysgrifen wael yn well na chof da". Dyna ddywed yr hen air ac fe roedd y dyddiadur yma yn brawf o hynny.

* * *

Wyddoch chi beth oedd yn digwydd y dyddiau cythryblus rheiny? Roedd yn Rhyfel, a'r dynion ifanc yn cael eu galw o bobman i'r lluoedd arfog, ac ar y nos Sul, Ionawr 14eg yng nghapel y Waunfawr, rydym yn ffarwelio ac yn dymuno'r gorau i Huw Elfed Roberts, Bryn Goleu a Goronwy Jones, Disgwylfa, y ddau yn ymadael a mynd i Wrecsam i ymuno â'r fyddin, a hefyd rydym yn ffarwelio a Cledwyn Pugh a Ivor Hughes sy'n dychwelyd i Ffrainc ar ôl wythnos adre ar 'leave'.

Cynhelir y cyfarfodydd gweddïau yr wythnos hon. Y rheswm o'u gohirio tan yr wythnos hon oedd aros am y nosweithiau olau lleuad, gan ei bod mor dywyll o achos y '*Blackout*'.

Cynhaliwyd cyfarfod y Cynghor Plwyf yn festri'r Waun ac ymhlith rhai o'r materion a godwyd oedd cais gan Mr a Mrs Hughie Owen, (Refail gynt) fel trethdalwyr eisiau bedd yn mynwent Betws Garmon am £1 i gladdu Nath Owen eu mab. Mae'r Cynghor Plwyf yn gwrthod yn bendant gan nad oedd Nath Owen yn drethdalwr yn y plwy gan fod ef a'i deulu wedi byw ers amser cyn iddo farw yng Nghaernarfon. Felly, roedd rhaid iddynt dalu £2-10/- am fedd. Y Cynghor yn penderfynu printio rheolau'r fynwent, a'i rhoi mewn lleoedd cyhoeddus. Claddwyd Nath Owen, 34 oed, ym mynwent y Betws ddydd Sadwrn Ionawr 13eg.

Ym mis Ionawr mae'r *rations* bwyd yn dod i rym. Hyn a hyn y pen o fenyn, caws, bacwn, siwgr, te a sawl peth arall. Does dim cig ffresh i'w gael, cig wedi ei rewi a gawn, (peth diarth yr adeg honno). Pawb yn cwyno o achos prinder blawd i'r anifeiliaid, yn enwedig y moch a'r ieir.

Hefyd ym mis Ionawr mae'r frech goch yn dew yn yr ardal, ac mae ei'n dau blentyn ninnau o dani.

Mae '*Barrage Balloon*' wedi torri yn rhydd o Fanceinion ac wedi disgyn ar dir Y Planwydd ar lan Llyn Cwellyn. 'Wil tramp' yn ôl ei arfer yn curo ar ddrws y becws yn gofyn am bilsen o furum at y gwaed. Mae'n cael pecyn o frechdanau hefyd. Picio gyda'r nos i edrych am Ann Evans, Tŷ 'n Gerddi a mynd a photiad o jam cartra y goeden gam iddi. Mae hi yn ei agor ac yn rhoi peth rhwng ei brechdan a darn o fara ceirch, felly y bydd hi yn mwynhau jam eirin cartre' medde hi.




Mae'n bwrw eira yn drwm ac yn lluwchio cymaint fel na all trafnidiaeth symud ac mae pobl yn gorfod gadael eu cerbydau a cheisio lloches yn rhywle lle gallant, ac mae lori â llwyth o lo, eiddo William Jones, Beddgelert o dan gladd ac wedi ei gadael ar iard y becws. Does dim posib mynd a bara i'r cwsmeriaid ac mae'r rhai mwyaf atebol yn dod yma efo'u bagiau, nid yn unig iddynt eu hunain ond hefyd i'w cymdogion. Mae'n job garw dal i fyny â'r gofynion ac mae'n 'hwi rhed' arnom fedru crasu digon ar gyfer pawb ar unwaith. Mae amryw yn gorfod disgwyl ac mae'r eira oddi ar eu hesgidiau a'u dillad yn diferu hyd y llawr yng ngwres y becws. Roedd yn helynt ceisio cael bara i lefydd diarffordd â'r eira yn gorchuddio pob man. Roedd rhaid i John adael y fan a chario'r bara mewn basged ar hyd y lôn o Wyrfai Teras i Fetws Garmon, a'r un fath o Ben Cefn i'r Hafod, Garth a Chae Hoedyn.

Byddai rhai o blant y pentref yn rhoi help mewn argyfwng a chofiaf un ohonynt wedi mynd gyda John Leathley, dreifar y fan i ddanfon bara. Roedd y bachgen wedi ymdrechu ac wedi llwyddo mynd a bara i fwthyn anghysbell yn y caeau lle'r oedd dwy chwaer - dwy hen ferch o Loegr yn byw. Yntau ar ôl dod adre yn mynd dros y stryffâg roedd wedi ei gael ac meddai, "Wyddoch chi ryw ferchaid sy'n byw yn Pen Dŵr Oer, rargoledig maen nhw yn rai rhyfadd - deud wrtha'i, biti na faswn wedi mynd ar hyd y llwybr i'r cefn rhag i hoel fy nhraed ddifetha yr olygfa "*most beautiful*" yr eira o'u ffenast nhw – a finna'n wedi stryffaglio mynd a bara iddyn nhw!"

Mae'r Cyngor Plwyf yn penderfynu anfon 'protest' i'r Cyngor Sir gan eu bod mor hir yn clirio'r eira oddi ar y ffyrdd. Hefyd, anfon 'protest' i'r Cyngor Dosbarth oherwydd prinder dŵr, a hefyd penderfynu gofyn i O.R.Williams adfer y bws 1 o'r gloch.

Erbyn yr wythnos wedyn mae'r glaw yn troi'r eira yn slwtsh budr. Yn dilyn y glaw trwm, fe gododd yr afon a llifo mewn i dai Gwyrfai Teras, fel bu'n rhaid i'r trigolion symud i'r llofft, a'r unig ffordd iddynt gael bara oedd eu taflu drwy'r ffenest agored.

Daeth lori stesion a thunnell o flawd i'r becws, ond wrth i'r dynion gario'r sacheidiau mewn, sylwi bod arogl sent cryf arnynt. Aeth John ar y ffôn i'r stesion i achwyn. "Gyrrwch nhw'n ôl" meddai'r sawl atebai. Wedi iddynt wneud ymchwiliad, canfod mai bocsiad o farnish ewinedd oedd wedi chwalu ac wedi colli am ben y llwyth.

Mae'r plant yn yr ysgol a'r llanast wedi ei glirio, ac mae llond y lein o ddillad yn sychu'n hwylus.

Mae John yn brysur rhwng y siop a'r becws, a minnau'n cael egwyl fach cyn mynd ato i'w helpu.

Does dim diwedd ar waith rhwng teulu, busnes a'r tyddyn. Mae John yn flin gan fod trafeilwyr fel brain ar ei ôl, ac yntau eisiau mynd i olwg yr hwch a hithau yn ôl yr almanac yn barod i ddod a moch bach.

Mae pethau yn prinhau o achos y rhyfel. Er hynny mae gennyf gofnod o brynu cant o datws gan Tom Hughes am 8 swllt, a chwarter cant o foron o Tyddyn Bach am hanner coron. Rwyf yn prynu wellingtons yn Siop Bryn Pistyll am 4/3d i un o'r plant ac am 3/11d i'r plentyn arall a hefyd cynfasau gwlanenêd, (flannelette) am 13/6d. Yn siop Hammers yng Nghaernarfon, rwyf yn prynu côt yn y sêl am £2 .9s a het ffelt am 2/11d, pyjamas i un o'r plant am 1/11d. Rwyf yn talu 6/6d am wadnu esgidiau'r gŵr.

Mynd i nôl llwyth o goed i fferm Prysgol ac yn galw heibio Hafod-y-Rhug Isa i weld Mr a Mrs Griffith Parry ac yn cael te a chrempog yno. (Mrs Parry fu yn y newyddion yn ddiweddar pan yn dathlu ei phen-blwydd yn 100 oed). Prynu ŵyn am 10/- yr un yn Pen-y-Bryn ac yn gwerthu buwch am £17-14/-. (Heddiw mae llo bach yn costio o leiaf can punt). Mynd i'r swyddfa fwyd yn Cwellyn i gael papur yn caniatáu 12 pwys o siwgr at wneud *marmalade*.

Mae'n adeg y tywyllu, neu'r 'blacowt' ac yn orfodol ar bawb guddio pob llygedyn o olau rhag i'r Germans eu gweld a gollwng eu bomiau ar ein pennau. Digwyddais fynd allan o'r tŷ un gyda'r nos a dyna yn union oedd yn digwydd ar ochr mynydd Cefn Du. Clyw'n sŵn yr awyren, ac yna goleuadau yr '*incendiary bombs*' yn ffrwydro. Galwais ar John a Wil Fôn ei gyfaill ddod allan o'r tŷ i'w gweld. Dyna'r agosaf bu'r bomio i ni drwy drugaredd. Clywed wedyn ma'i anelu am safle un o'r gweithfeydd yn Llanberis roeddynt y noson honno.

Roedd rhai o'r dynion oedd wedi eu penodi fel swyddogion o'r A.R.P. yn or bwysig ac yn defnyddio llywodraeth y fawd i'r eithafon. Dyna ddigwyddodd yn gynnar un bore pan roedd dau o'r swyddogion hyn yn digwydd bod wrth law pan gyrhaeddodd John y becws a rhoi'r golau ymlaen cyn gosod y 'blacowt' ar

y ffenestri. "Doedd rhaid i mi gael gola i'w gosod siŵr iawn!" oedd ei amddiffyniad, ond derbyn gwŷs a wnaeth a chael ei gosbi am ei esgeulustra.

Gwasanaeth eitha cyffredin mewn pentref oedd y crasu cyhoeddus. Gan mai popty a thân oddi tano oedd yn y tai, byddai nifer o'r bobl yn dod a'u toes i'r becws i'w grasu. Byddai'r merched yn gwneud eu toes eu hunain a'i roi mewn cwdyn lliain a'i ddanfon i'r becws ar gyfer ei grasu.

Dydd Mawrth oedd ei'n diwrnod ni i'r gwasanaeth hwn, ond byddai dydd Sadwrn hefyd pryd deuai rhai a'u cigoedd i'w rhostio at y Sul. Yn ogystal â'r cig, deuai rhai ac ambell deisen - teisen blât neu deisen bwdin ran amlaf ac ambell ddysglaid o bwdin reis at y Sul. Ceiniog yr un fyddai'r tâl am grasu neu rostio a chredaf y byddai'n anodd cael gwasanaeth rhatach na hyn. Eto i gyd byddai Katie Robaitsh, Bryn Goleu yn grwgnach byth a hefyd a chwyno bod codi ceiniog yn ormod o lawer am grasu. Wn'i ddim beth sydd ar y ddynes! Beth mae hi yn ddisgwyl? Ni allaf feddwl am wasanaeth rhatach na hwn! Buasai'n rhaid iddi losgi oddeutu cant o lo i grasu adre a chan nad oes ganddi ond pedair o fara, dim ond grôt mae'n gostio iddi a dim llafur i'w ganlyn.

Talu dan ddannod mae hi a gwneud i mi deimlo fel pe bawn yn tynnu carai hir o'i chroen. Ond ar y cyfan roedd y rhan fwyaf yn gwerthfawrogi ac yn ddiolchgar am y gwasanaeth.

(Daeth y gwasanaeth yma i ben wedi i'r trydan ddod i'r ardal a'r merched yn cael eu poptai eu hunain oedd mor hwylus rhagor na'r strâch o wneud tân dan y popty.)

Mewn cydau papur y daw'r blawd rŵan, hynny eto yn lleihau'r gwaith o gymharu â phan y deuai mewn sachau trymion. Byddai angen anfon y sachau trymion 'nôl i'r felin mewn sypiau neu dalu deunaw'r un amdanynt. Gwaith caled oedd eu pacio gan eu bod mor drwm â'r blawd llychlyd yn mynd i'r gwallt a dillad wrth eu bwndelu. Cawn ambell i lwyth o flawd wedi ei bacio mewn cydau lliain, a byddai galw mawr gan rhai o'r cwsmeriaid am rhain. Chwe cheiniog fyddai eu pris a byddai gwaith golchi a sgwrio arnynt i gael enw'r cwmni i ffwrdd oedd wedi ei brintio mewn lliwiau llachar o goch neu las cyn iddynt droi yn glaerwyn. Gwnai pedwar o'r rhain wedi eu gwnï o wrth ei gilydd gynfas nobl i'w rhoi ar wely ar yr adeg pryd roedd yn rhaid i bobl wneud y gore o bopeth fel y gallant. Gwelais waith ardderchog gan ambell ddynes wedi eu gweithio mewn brodwaith celfydd ac yn cael eu defnyddio fel lliain bwrdd, tra roedd eraill yn eu torri a'u defnyddio fel clwt pwdin neu ddwster a hancesi poced. Gwnai yr hen wraig Elin Huws oedd yn byw ar y terfyn a'r becws, ffedog fawr wen at ei thraed, a phan fyddai angen cario ei neges, codai odre'r ffedog i fyny gan ei dal o'i blaen fel cwdyn i'w cario. Gwelais hi hefyd yn dod a llond y ffedog o goed tân lawer gwaith

***Mary Awstin Jones***
***(1909 – 1985)***

# Parcio am ddim yng Ngwynedd i annog siopa'n lleol y Nadolig hwn

Fel rhan o ymdrechion i gefnogi busnesau lleol y Nadolig yma, bydd parcio am ddim yn holl feysydd parcio Cyngor Gwynedd ar ôl 11:00AM bob dydd rhwng y 10fed a'r 27ain o Ragfyr.



Mae'r Cyngor yn annog pobl Gwynedd i gefnogi busnesau lleol y sir dros gyfnod y Nadolig - cyfnod sydd mor allweddol i'r sector siopau ac adloniant.

Dywedodd y Cynghorydd Dafydd Meurig, Aelod Cabinet Amgylchedd y Cyngor:

"Rydan ni'n annog pobl i gefnogi'r busnesau bach sy'n asgwrn cefn canol ein trefi, yn lle mynd am dripiau siopa i'r dinasoedd mawr neu chwyddo coffrau'r corfforaethau mawr ar-lein.

"Fe gofiwn fod llawer o fusnesau lleol wedi mynd yr ail filltir i gefnogi'n cymunedau yn ystod y pandemig.

"Felly, os ydych chi'n chwilio am anrhegion arbennig, yn prynu bwyd a diod ar gyfer y tymor gwyliau neu'n paratoi at wledd i ddathlu – cofiwch am y cyfoeth o fusnesau bach a chrefftwyr yma yng Ngwynedd, a manteisiwch ar y parcio am ddim."

Mae gwybodaeth am yr amrywiaeth o ddanteithion sydd ar gael o lawer iawn o fusnesau Gwynedd i'w gweld yma: www.visitsnowdonia.info/cy/siopau-cynnyrch-lleol

Ymgyrch ym meysydd parcio cyhoeddus Cyngor Gwynedd ydi hwn. Bydd arwydd ar bob peiriant talu ac arddangos ym meysydd parcio cyhoeddus y Cyngor, felly os nad oes nodyn i'w weld, dylech wirio os ydi o'n faes parcio'r Cyngor.

Mae lleoliad holl feysydd parcio Cyngor Gwynedd ar gael ar ein gwefan: www.gwynedd.llyw.cymru/parcio

**NODYN:**
Dylai unrhyw un sy'n parcio mewn maes parcio sy'n eiddo i gorff arall wirio'r trefniadau yn ofalus cyn parcio gan ei bod yn bosib na fydd parcio am ddim ar gael yno.



# Crwydro gerddi


1


2


3


4


5


6


7


8


9

Yn rhifyn diwetha'r Eco roeddwn yn crwydro Bodnant ac yn mwynhau lliwiau'r hydref. Crybwyllais safle Bodnant o ran y nifer o luniau a dynnwyd ac ymfalchïo yn ei boblogrwydd. Fodd bynnag roedd un ben ac ysgwyddau uwchben y lleill ond braidd yn bell o lethrau Moel Rhiwen.

Ia roedd Gerddi Botaneg Singapore yn dod i frig y rhestr. Dwi'n ddigon ffodus i fod wedi bod yno. Beth amser yn ôl bellach ond efo llwyth o luniau ar y cyfrifiadur (er mawr ddiflastod i'r plant pan ddaethom ni adref). Rwyf felly am eu rhannu efo chi i lonni eich calonnau a gwneud i chi ryfeddu am beth ellir ei wneud wrth arddio pan yw'r tywydd yn braf drwy gydol y flwyddyn. A hithau'n dechrau oeri yma ac ambell fynydd efo eira ar ei chopa, dyma rannu profiad, na chaf fi byth eto ei brofi mae'n debyg.

Gallwch weld llawer mwy o luniau a darllen am hanes y gerddi jest wrth deipio *Singapor Botanical Gardens* i mewn i'r cyfrifiadur. Ond dyma chi ychydig o hanes y gerddi hyfryd, cyn i mi rannu'r lluniau dynnais i:

Sir Stamford Raffles, naturiaethwr brwdfrydig a sylfaenydd y Singapore fodern, ddatblygodd yr ardd gyntaf yn Fort Canning yn 1822. Ond dros y blynyddoedd datblygwyd a gwellwyd y gerddi , rhoddwyd y Gerddi i'r llywodraeth Brydeinig drefedigaethol yn 1874. Sicrhaodd cyfres o arddwyr a hyfforddwyd yn Gerddi Kew fod y Gerddi'n blodeuo i fod yn sefydliad botanegol pwysig dros y degawdau canlynol. Erbyn heddiw, rheolir y Gerddi gan y Bwrdd Parciau Cenedlaethol , sy'n fwrdd statudol o lywodraeth Singapore.

Ar y 4ydd Gorffennaf, 2015 cafodd y Gerddi eu cofrestru fel Safle Treftadaeth y Byd UNESCO. Y Gerddi yw'r cyntaf a'r unig ardd fotaneg drofannol ar restr Safle Treftadaeth y Byd UNESCO.

Dyna ddigon o hanes. Unarddeg mlynedd yn ôl dechreuais i ac efe ar daith, aeth a ni yn bell oddi cartref. Roedd blodau hardd i'w gweld yn y maes awyr yn Qatar, wrth i ni ddisgwyl am awyren arall i'n cludo i Singapore. Rhyfedd fel mae amser yn dod â phethau at ei gilydd. Dyma lun o'r man aros wrth newid awyren yn Qatar… Pwy feddyliai byddai Qatar, unarddeg mlynedd yn ddiweddarach, mor gyfarwydd i gymaint ohonom yma yng Nghymru fach. Roedd y tegeirianau yn y maes awyr yn werth eu gweld ac yn argoeli'n dda am fwy o flodau yn

# Elusen gerdded fwyaf Cymru'n lansio apêl frys i wella llwybrau

**Mae Ramblers Cymru wedi lansio ymgyrch godi arian yn galw ar y cyhoedd i'w helpu i wella llwybrau a mynediad yng Nghymru.**

Mae miliynau o bobl yn mwynhau cerdded yng Nghymru, gyda cherdded yn cael ei ffafrio fel y gweithgaredd corfforol mwyaf cyffredin gan y genedl o ran cerdded am hamdden (60%) a cherdded ar gyfer teithio (25%).*

Yn fwy na 20,000 o filltiroedd o hyd, mae ein rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus yn croesi mynyddoedd a rhostir, clogwyni a thir comin, caeau a chyrion trefol. Mae'n ein cysylltu â natur ac â'n gilydd.

Fodd bynnag, nid yw cyflwr ein rhwydwaith llwybrau (Hawliau Tramwy Cyhoeddus) yn adlewyrchu poblogrwydd cerdded.

Mae Ramblers Cymru yn amcangyfrif fod oddeutu 50% o'n llwybrau yn anhygyrch, gan atal pobl rhag mwynhau'r manteision iechyd a lles hollbwysig o gysylltu â byd natur.

Yn sgil hyn, mae Ramblers Cymru wedi lansio apêl Cyllido Dorfol yn benodol ar gyfer gwella'r llwybrau drwy eu prosiect Llwybrau i Lesiant a gwaith mynediad arall. Mae'n galw am gefnogaeth gan y cyhoedd i weithredu a helpu i gerdded wrth galon ein cymunedau a'r adferiad wedi Covid.

Darganfyddwch mwy a chefnogi'r ymgyrch yma: www.ramblers.org.uk/arbedeinllwybrau

Ochr yn ochr â'r ymgyrch hon, mae Ramblers Cymru hefyd yn parhau â'i galwad ar Lywodraeth Cymru i ddarparu cyllid teg ar gyfer y rhwydwaith llwybrau. Mae'r addewid eisoes wedi casglu dros 1500 o lofnodwyr ac yn dal yn agored i chi ychwanegu eich llais www.ramblers.org.uk/einllwybraueindyfodol

Dywedodd Angela Charlton, Cyfarwyddwr Ramblers Cymru: "Ein llwybrau yw'r pyrth i'n cymunedau, maent yn ein helpu i gadw'n heini ac yn iach a'n cysylltu â'n mannau gwyrdd a'n natur. Yn anffodus, yn aml maen nhw'n cael eu tanbrisio a ddim yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae diffyg buddsoddiad a gofal yn ei gwneud hi'n amhosib i lawer ohonyn nhw gael eu defnyddio.

"Yn Ramblers Cymru rydyn ni eisiau bod yn rhan o'r ateb, mae ein timau cynnal


10


11


12


13


14


15

Singapore. (1-2)

Fawr o flodau yng nghanol y ddinas. Ond mae gwell i ddod… gobeithio. (3)

Ond mi ges i ymweld â'r gerddi a chael modd i fyw. Roedd efe'n gweithio, ond mi ges i neidio ar fws a chrwydro'r ddinas, a threulio llawer iawn o amser yn y Gerddi |Botaneg. (4-5)

*'Blow Wing Blow'* oedd enw hwn. Cafodd y strwythur ei ysbrydoli gan drowynt (*tornado*). Mae'r mwyafrif ohono wedi ei greu gan *smilex* (gwinwydd) sy'n cordeddu o gwmpas boncyff y goeden. Mae'r dyluniad yn rhoi argraff o wynt cryf yn cael ei ddal gan y goeden.

*'Bloom'* oedd enw hwn, a daeth yr ysbrydoliaeth i'r artist wrth wylio glanhawr yn sgubo'r llawr. Trwy ddefnyddio dail palmwydd o'r Gerddi, creodd yr artist strwythur mawr tebyg i flodyn i'n hatgoffa ni i gadw ein gerddi a'n hamgylchedd yn lân, er mwyn i ni fedru cael awyr iach ac


16

amgylchedd glân i fyw ynddi.

Dyma'r *Heritage Tree* (Tembusu ( fragraea fragrans)sy'n gynhenid i Singapore. Gall dyfu i faint anferthol, hyd yn oed ar dir gwael. Mae'r pren caled a chryf yn helpu i gynnal pwysau'r brigau. Mae gan y Tembusu yn dwyn blodau hufen persawrus, sy'n denu gwyfynod gyda'r nos. Aeron bach oren yw'r ffrwythau.

Roeddwn wedi dotio efo'r lliwiau yma. (6)

Yng ngwres yr haul dyma fy atgoffa o rywbeth hoffwn i gael yn yr ardd acw… dŵr. Digon o waith ar ben mynydd a fawr o glem am adeiladu. (7)

Ond y peth gorau oedd y blodau - pob lliw pob llun… Yn ôl un o'r arwyddion mae'r casgliad o degeirianau VIP wedi dod yn atyniad pwysig i 'r Ardd Degeirianau Cenedlaethol. (8-9)

Rhaid cyfaddef bod tegeirianau yn un o fy hoff flodau i'w cael yn y tŷ. Ond yma roedden nhw'n tyfu'n naturiol ar goed… Bendigedig!

A fy hoff flodau - y tegeirianau, nid mewn potiau ond yn tyfu ar goed ym mhobman! (10-12)

Mor hardd! Dim gobaith mul mewn Grand National o dyfu'r rhain yn yr ardd yn Neiniolen… Silff ffenest efallai?

Cofiwch chi, nid jest tegeiriannau oedd yn tyfu ar y coed yno chwaith. (13)

A phob lliw a siâp yn hardd ac yn fy swyno. (14-16)

Blwyddyn Newydd Dda i chi i gyd.

***Rhosyn Mynydd***

ESTD 1973
WAVELLS
AWARD WINNING BUTCHERS AND DELI
DELI A CHIGYDD O FRI
Bryn ac Angela Williams
LONDON HOUSE LLANRUG
yr ŵyn lleol mwyaf blasus
selsig cartre
cigoedd parod i'w bwyta
archebion ar gyfer y rhewgist
(01286) 673574

ECO'r Wyddfa
**Hoffech chi hysbysebu eich busnes yma?**
Hefin Jones
Pantmwyn, Llanrug
01286 673838
hefsj@aol.com



a chadw llwybrau anhygoel a phrosiect Llwybrau i Lesiant sy'n gweithio gyda chymunedau, gwirfoddolwyr, awdurdodau lleol a sefydliadau amgylcheddol yn gwneud gwahaniaeth, ond mae angen cefnogaeth y cyhoedd i wneud mwy, fel nad ydym yn colli'r llwybrau hyn, ond yn hytrach yn eu hamddiffyn a'u mwynhau ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol."

Am fwy o wybodaeth cysylltwch â Brân Devey, Rheolwr Ymgysylltu a Chyfathrebu Ramblers Cymru bran.devey@ramblers.org.uk / 07383550964.

Cewch mwy o wybodaeth am Ramblers Cymru ar www.ramblers.org.uk/wales



# Cyngor Cymuned Llanberis

## COFNODION CYFARFOD MIS TACHWEDD 2022

**1 CROESO**
Cofnodion cyfarfod misol rheolaidd y Cyngor nos Fercher y 9fed o Dachwedd 2022 am 7yh yn Y Ganolfan, Llanberis. Estynnwyd croeso i'r aelodau gan y Cadeirydd.

**2 PRESENNOL ac YMDDIHEURIADAU**
***Ward Padarn:*** Rhys ap Gwilym, Emlyn Baylis, Iwan Harding, Heather L Jones, Kevin Morris Jones, Cyng. Kim Jones, Nia Jones, Louise Price, Helen Sharp, Trystan Thomas.
***Ward Peris:*** Iola Owen, Llinos Haf Pritchard (Cadeirydd).
***Ymddiheuriadau:*** Gwilym Evans
Hefyd yn bresennol: Dei Tomos (Clerc).

**3 DATGAN BUDDIANT:**
Cofnodir, os yn berthnasol, o dan y gwahanol benawdau.

**4 CADARNHAU COFNODION:**
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod nos Fercher y 12fed o Hydref 2022 fel rhai cywir ac fe'i llofnodwyd gan y Cadeirydd. Cynnig ac eilio: HLJ / EB.

**5 MATERION YN CODI O'R COFNODION**

***1. Cae'r Ddôl:***
Bu KJ, EB a'r Clerc mewn cyfarfod diweddar gyda swyddogion Cyngor Gwynedd (CG), Parc Padarn ac eraill i drafod a fu'r trefniadau newydd eleni ar gyfer y rasus rhedeg yn llwyddianus. Roedd pawb ac eithrio un o'r trefnwyr yn berffaith hapus a'r drefn newydd. Yr eithriad oedd trefnydd Ras yr Wyddfa, ond gan nad oedd yn bresennol yn y cyfarfod chafwyd dim manylion am ei anniddigrwydd. Teimlad y Pwyllgor Digwyddiadau oedd bod y trefniadau newydd wedi bod yn llwyddiant mawr ar ôl mân drafferthion cyn y ras gyntaf.
***2. Cae Chwarae Ger y Llyn:***
Mae'r gwaith i ddechrau'r wythnos nesaf.
***3. Blaen Nant, Nantperis:***
Dim mwy o wybodaeth ond pwyswyd ar y Clerc i holi eto Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri sut y rhoddwyd caniatad i godi'r adeilad newydd.
***4. Glyn Peris, Pen y Gilfach, Llanberis:***
Rhoddwyd caniatad cynllunio i newid defnydd y ty yma i fod yn gartref plant
***5. Llwybr Coed Nantucha':***
Yn dal heb ragor o wybodaeth am drwsio'r llwybr.
***6. Cysgodfan newydd Dôl y Goeden:***
Adroddwyd fod hon, sydd ym meddiant CG, wedi ei chwblhau ond nad oedd yr offer electronig i gyd yn gweithio ac nad oedd y camerau yn weithredol am nad oedd sticeri i nodi eu bod yno wedi eu gosod. Roedd hyn er i KJ fel Cynghorydd fynd ar ôl CG sawl gwaith.
***7. Coed Doctor:***
Diolchwyd i KJ am drefnu i'r llwybr gael ei drwsio. Gofynnwyd iddi hefyd ofyn i CG roi giat newydd lle mae'r llwybr i'r coed yn gadael y ffordd fawr.
***8. Mynwent yr Eglwys:***
Adroddwyd nad oedd y gwair wedi ei dorri ym Mynwent Eglwys Peris Sant. Gan ei bod yn amlwg i'r trefniant amgen fethu gofynnwyd i'r Clerc holi a oedd modd i'r ymgymerwr arferol neu ymgymerwr arall wneud y gwaith.
***9. Goleuadau Nadolig:***
Adroddwyd fod cysylltiadau trydanol ar gyfer golau Nadolig wedi eu hychwanegu ar 4 polyn lamp stryd yn Llanberis gan CG. Bydd y gost yn llai na'r disgwyl am eu bod yn ymyl ei gilydd.
1/3

**6 MATERION ERAILL**
***1. Panel penodi Clerc:***
Penodwyd y Cadeirydd LlHJ, RhaG a TT ynghyd a'r Clerc i fynd ati i baratoi ar gyfer hysbysebu swydd y Clerc gan fod DT yn ymddeol. Addawodd y Clerc gylchlythyru manylion yn y dyddiau nesaf. Penderfynwyd rhoi hawl gweithredu i'r panel ond gyda'r manylion yn cael eu rhannu gyda'r aelodau eraill yn hytrach na disgwyl tan y cyfarfod nesaf. Cynnig ac eilio: HS / KMJ.
***2. Polisi hyfforddi:***
Trafodwyd yr angen i gael polisi hyfforddi ar gyfer y Cyngor. Eisoes roedd tri aelod yn disgwyl dyddiad ar gyfer mynd ar gwrs yn ymwneud a Chynllunio. Dywedodd y Clerc fod un cwrs yn taro ar ddyddiad y cyfarfod yma, bydd y nesaf cyn diwedd Tachwedd.

Yn ogystal penderfynwyd fod pob un o'r aelodau i fynychu o leiaf un cwrs hyfforddi gan Un Llais Cymru o hyn i ddiwedd Mawrth, ac yna yn y flwyddyn ariannol nesaf, o ddechrau Ebrill, y bydd yn ofynnol i bawb fynychu dau gwrs. Y Cyngor fydd yn talu, gan wneud cais am bob bwrsari posibl i ysgafnhau'r baich ariannol. Cynnig ac eilio: KMJ / LP.
***3. Polisi Ariannol:***
Edrychwyd yn fanwl ar adroddiad *Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2023 i 2024* gyda'r bwriad o greu polisi i'r dyfodol. Dyma'r adroddiad sy'n gosod lefel taliadau ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf i aelodau awdurdodau lleol gan gynnwys cynghorau cymuned megis Llanberis.

O dan y drefn newydd bydd yn orfodol ar i gynghorwyr dderbyn y lwfans, y flwyddyn nesaf bydd hwnnw yn £156 y pen. Gan nad oes dewis bydd yn rhaid ei dderbyn, ond penderfynwyd na fydd yr aelodau yn derbyn unrhyw lwfansau eraill, na unrhyw daliadau ychwanegol am swyddi neu gyfrifoldebau o fewn y Cyngor. Roedd y penderfyniad yn unfrydol. Seilir y polisi ar hynny. Cynnig ac eilio: TT / KMJ.

**7 GOHEBIAETH:**
***1. CG - Cau Stryd Fawr ar gyfer Ffair Nadolig:***
Cafwyd rhybudd fod Grŵp Datblygu Llanberis (GDLl) wedi cael caniatad i gau'r Stryd Fawr rhwng tafarn Prince of Wales a'r gyffordd â ffordd A4086 ger Y Ganolfan ar gyfer Ffair Nadolig, nos Iau yr 8fed o Ragfyr. Bydd y ffordd ar gau o 5 hyd 8 yr hwyr, ond ar gau rhwng y Prins a Ffordd Tŷ Du o 6.30 hyd 8. Am y cyfnod o 5 hyd 8 bydd yn amhosibl mynd trwy'r pentref a bydd gwasanaethau bws S1 ac S2 ar y ffordd osgoi.
***2. Cynllun Cymorth Tanwydd Llywodraeth Cymru***
Yn gofyn i'r Cyngor ddosbarthu posteri cyhoeddusrwydd. Rhoddir un ar bob un o hysbysfyrddau'r Cyngor.
***3. Cyfyngiadau Parcio Arfaethedig:***
Manylion y llinellau melyn dwbl ar gyfer Ffordd Tŷ Du a Llainwen Uchaf, Llanberis. (Yn unol a dymuniad y Cyngor hwn)
***4. Llywodraeth Cymru:***
Hysbyseb am Weithdy gan LlC yn Llandudno ar Ragfyr y 7fed.
***5. Prifysgol Bangor - Ymchwil Gofalwyr Dementia:***
Rhannwyd cais am gymorth i ddarganfod gofalwyr sy'n gofalu am drigolion yn dioddef o ddementia. Mae'r brifysgol yn awyddus i rannu gwybodaeth ac i gasglu gwybodaeth am y cyflwr a'i effaith ar ddioddefwyr a gofalwyr. Gofynnodd y Clerc i'r aelodau drosglwyddo'r manylion i unrhyw un a allai gynorthwyo.
***6. Cyrsiau Hyfforddi 'Un Llais Cymru' (ULlC):***
Rhannwyd dyddiadau cyrsiau hyfforddi cynghorwyr gan ULlC gan annog yr aelodau i ddewis cwrs yn fuan.
***7. Digwyddiadau Chwaraeon:***
Yn dilyn cais am werthu diodydd alcoholic a chynnal bar ar Gae'r Ddôl yn ystod un o rasus rhedeg mawr y flwyddyn nesa roedd CG wedi ymgynghori. Nid oedd CG yn ffafrio y cais ond roedd am ymgynghori a'r Cyngor hwn yn gyntaf. Cytunwyd nad oedd angen






bar gan fod digon o gyfleusterau felly yn y pentref.

**8 CYNLLUNIO:**

**C22/0650/15/LL -** Tir Stâd Glyn Rhonwy, Llanberis - *Codi canolfan digwyddiadau newydd i gynnwys gofod swyddfa, mannau cyfarfod, caffi a storfa warws.*

Gwnaed nifer o sylwadau: Roedd yr aelodau wedi deall mai ar gyfer datblygiadau diwydiannol, a fyddai'n cyflogi nifer sylweddol o weithwyr, y neilltuwyd y tir yma yng Nglyn Rhonwy gan CG a gofynnwyd pam felly ei fod yn ffafrio manwerthu ar y safle? Roedd llawer yn gweld hwn yn ddatblygiad a ddylai fod yn digwydd yn y pentref, lle byddai mwy o les economaidd. Os oedd y datblygiad yma yn groes i bolisi gwreiddiol CG ar gyfer Glyn Rhonwy, dylid ei wrthod, ond os nad felly yna doedd gan y Cyngor ddim gwrthwynebiad er o'r farn na ddylid caniatau man werthu gyda chaffi ag ati. Roedd pawb yn gytun ar hynny ac eithrio HLJ a oedd am nodi nad oedd yn cytuno a'r mwyafrif ac am weld caniatau'r datblygiad.

*2/3*

**9 MATERION ARIANNOL:**

**1) Yn y Banc ar yr 28ain o Hydref, 2022**

**Cyfrif Cyfredol**: £57,529.60 **Cyfrif Cadw**: £66.57

**2) Cadarnhawyd y taliadau canlynol:**

**CYFANSWM ... ... £5,342.80**

**3) Arian a dderbyniwyd rhwng 29/09/2022 a 28/10/2022: Dim**

Cynnig ac eilio yr oll o'r materion ariannol: EB / KJ.

**10 ADRODDIADAU ERAILL:**

***1. Cyfarfod Blynyddol APCE a Chynghorau Cymuned a Thref:***

Bu'r Clerc yn y cyfarfod (ar Zoom) ar ran y Cyngor. Cafwyd nifer o gyflwyniadau yn ymwneud â'r Parc yn eu plith trosolwg o waith gan y Prif Weithredwr a fu'n mynegi pryder fod cyllideb yr Awdurdod wedi crebachu'n sylweddol yn ddiweddar. Mewn perthynas a'r ardal yma dywedodd ei fod yn falch fod gwell trefn wedi bod eleni o ran parcio, a bod y gwasanaeth bws *Sherpa* yn dal i fod yn boblogaidd ac yn ateb y galw i raddau helaeth. Ymhlith y cyflwyniadau roedd rhai ar gynlluniau penodol o fewn y parc, yn ardal y Carneddau, Mawddwy ac Ardudwy.

**11 CYFARFOD NESAF:**

Dyddiad y cyfarfod nesaf: Nos Fercher Rhagfyr 14, 2022 am 7.00yh yn Y Ganolfan.

**Arwyddwyd a chafwyd yn gywir:**

Cadeirydd: Llinos Haf Pritchard
Clerc: Dei Tomos
Dyddiad: 14 Rhagfyr, 2022

*3/3*

# Cyngor Cymuned Llanrug

## CYNGOR CYMUNED LLANRUG, 18FED HYDREF, 2022

**Croeso gan y Cadeirydd**.

Estynnodd y Cadeirydd groeso cynnes i bawb i'r cyfarfod a diolchodd am eu presenoldeb. Estynnwyd croeso cynnes yn arbennig i'r aelodau newydd sef y Cynghorwyr Gwynedd Williams, Anne Lawton ac Emyr Jones, oedd yn mynychu eu cyfarfod cyntaf.

**Cadarnhau cofnodion cyfarfod 27 Medi, 2022**

Cadarnhawyd y cofnodion yn gywir ac fe'i harwyddwyd gan y cadeirydd.

**Sylwadau yn codi o'r Cofnodion**

Eitem 1026 - Cwynion wedi derbyn am bobl yn defnyddio biniau yn perthyn i eiddo yn Y Bwlch ac i gysylltu â Chyngor Gwynedd i ofyn am fin ychwanegol yno.

**Derbyn adroddiad** gan y Cynghorydd Berwyn Parry Jones, aelod dros Gwm y Glo ar Gyngor Gwynedd.

**Derbyn adroddiad gan y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau**

Adroddwyd fod y pwyllgor wedi cyfarfod ar 11eg Hydref 2022 ac fe drafodwyd y canlynol:-

Y gyllideb bresennol, gydag ystyriaeth i wariant fydd yn ddyledus ar y caeau chwarae a'r fynwent.

Does dim angen pwrcasu goleuadau Nadolig ar gyfer coed Llanrug na Chwm-y-Glo, dim ond trefnu eu bod yn cael 'PAT test'.

Mae arian ar gyfer y Clwb Ieuenctid yn y gyllideb.

Adroddwyd ein bod wedi derbyn archwiliad mewnol beth amser yn ôl ond fod yr archwiliwr allanol wedi cael y dogfennau beth amser yn ôl bellach ond hyd yn hyn ddim wedi derbyn dim byd yn ôl.

Cyfrif Poor House, i gysylltu â'r elusen i holi am gau'r cyfrif.

Bydd y cytundeb torri gwair y fynwent, meysydd chwarae a llwybrau cyhoeddus yn dod i ben eleni ac mae cyfarfod wedi ei drefnu ar gyfer 26 o Hydref i drafod y tendr ar gyfer y tair blynedd nesaf.

Adroddwyd fod y coed er cof am y cyn-gynghorwyr Charles Jones a Brian Jones wedi eu plannu a bod angen sedd o'u hamgylch gyda phlac. Bydd y Cyngor yn cysylltu â Menter Fachwen i holi am bris i wneud y gwaith.

Y cyfarfod nesaf yn y flwyddyn newydd i baratoi'r gyllideb ar gyfer praesept 2023/2024.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad.

I **dderbyn adroddiad gan Bwyllgor y Fynwent**

Adroddwyd fod dau ddarn o newyddion da ar gyfer cyfarfod heno.

Yn gyntaf, mae mynwent y cyngor wedi ennill gwobr arian am yr ail flwyddyn yn olynol yng nghystadleuaeth mynwent y flwyddyn, yn y categori ar gyfer mynwentydd i gynghorau cymuned a phlwyfi ar draws y Deyrnas Unedig. Cystadleuaeth ydi hon sydd wedi ei threfnu ar y cyd gan yr 'ICCM- Institute of Cemetery and Crematorium Management', SLCC-Society of Local Council Clerks, MAB-Memorial Awareness Board, a BRAMM- British Register of Accredited Memorial Masons.

Mae ennill y wobr yma yn glod aruthrol i gyngor bach fel Llanrug.

Yn ail, mae hysbysfwrdd ychwanegol wedi ei archebu ar gyfer y fynwent ac mae Elusen Dyffryn Peris wedi cytuno i'w ariannu drwy grant.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am yr adroddiad a llongyfarch aelodau o bwyllgor y fynwent am eu gwaith i ennill y wobr yma.

Diolch yn fawr iawn i Elusen Dyffryn Peris am eu haelioni a'r clerc i anfon llythyr o ddiolch.

**CEISIADAU CYNLLUNIO**

a) **Newid tir amaethyddol i gwrtil preswyl. Bryn Dwynwen, Llanrug**

Penderfynwyd: Cefnogi'r cais.

b) **Dylunio estyniad deulawr i gymryd lle un presennol. Mynedfa gerbydol newydd i wella llinellau gwelededd. Codi sied yn lle'r un bresennol. Clawdd Cerrig, 2, The Terrace, Cwm y Glo.**

Penderfynwyd: Cefnogi'r cais.

**I gymeradwyo i'r cyngor barhau gyda'r cynllun BWYD o 1 Rhagfyr 2022 ymlaen ac i awdurdodi'r clerc i wneud ceisiadau am unrhyw grantiau perthnasol**

Adroddodd y Cynghorydd Berwyn Parry Jones fod y cynllun bwyd presennol yn dod i ben ar 30 o Dachwedd 2022. Wedi ymgynghoriad â›r clerc, fe ddaeth cyfle i roi cais i mewn am grant oddi wrth Cist Gwynedd ac yn sgil y prinder bwyd sydd yn dod ar hyn o bryd gan Fairshare, penderfynwyd rhoi cais i mewn am uchafswm y bwyd gan Fairshare, gyda'r bwriad os na fydd Fairshare yn gallu cyflawni'r bwyd, yna gall y cyngor ddefnyddio'r grant i bwrcasu bwyd, megis tuniau ayyb, stwff ble gellir eu cadw.

Penderfynwyd: Derbyn a diolch am y wybodaeth ac awdurdodwyd y Clerc i wneud ceisiadau am grantiau ar ran y cyngor.

**Derbyn adroddiad am y sefyllfa ddiweddaraf ar garthffosiaeth Llanrug**

Rhoddwyd adroddiad bras o'r sefyllfa er mwyn aelodau newydd y cyngor. Mynegwyd pryder fod Llanrug wedi tyfu'n rhy fawr i'r system garthffosiaeth bresennol, a phryder am erthygl yn Eco'r Wyddfa fod arllwysiadau i'r afon yn achosi niwed i'r amgylchedd. Anfonwyd llythyr at Dŵr Cymru yn datgan y pryderon hyn.

Ymatebodd Dŵr Cymru trwy ddweud nad oedd eu hasedau yn ardal Llanrug yn peri pryder iddynt. Rhoddwyd hefyd fraslun ganddynt i ni o'r camau a gymerir ganddynt wrth ddelio efo ceisiadau cynllunio er mwyn diogelu'r gymuned a'r amgylchedd. Mynegwyd yn y Cyngor nad oedd y pryderon am yr arllwysiadau i'r afon Seiont wedi eu tawelu.

Penderfyniad: Gwneud cais i gyfarfod â chynrychiolwr o Dŵr Cymru ar lan yr Afon Seiont ger safle gwaith trin carthffosiaeth Llanrug.

**Cais am grant- Llewod Llanrug.**

Derbyniwyd cais am grant gan Llewod Llanrug.

Penderfynwyd: Caniatáu cymorth ariannol o £750 ar gyfer 2022/2023

Mae'r Cyngor yn caniatáu hyn ar yr amod ei fod yn derbyn y wybodaeth ganlynol:-

Cadarnhad o bwy sydd yn defnyddio cae Nant y Glyn, ar ba noson, a'r amseroedd.

(Byddai yn ddefnyddiol gwybod pa bryd bydd y timau yn peidio defnyddio'r cae ar gyfer ymarfer fel bydd y nosweithiau yn byrhau)

Cadarnhad fod yr hyfforddwr wedi cwblhau cwrs cymorth cyntaf, fod offer cymorth cyntaf gan yr hyfforddwr mewn sesiynau hyfforddi a bod y cymhwyster cymorth cyntaf yn ddilys.

# Garddio





**IONAWR**

Wedi cyrraedd dechrau'r flwyddyn a'r tymheredd yn disgyn mae'n demtasiwn mawr i swatio fel pathew dan y *duvet* bob bore! Yn yr un ffordd mae gadael cwrlid o ddail ar y borderi yn rhoi lle i greaduriaid bach i fochel dros y gaeaf ac yn amddiffyn y pridd rhag erydiad gan law trwm. Wrth i'r bylbiau cynnar ddechrau torri drwadd yn yr wythnosau nesaf, mae'n werth clirio'r dail a thocio peth o'r hen dyfiant er mwyn gwerthfawrogi blodau tlws yr eirlysiau, aconit y gaeaf*, (winter aconites)* a crocws a'u gwarchod rhag cael eu difetha gan wlithod.

Gallwch hefyd ddechrau cynllunio ar gyfer yr ardd lysiau eleni – 2023!

Yn dilyn fy addunedd llynedd, llwyddais i gadw dyddiadur (yn hytrach na '*post its'* a darnau o bapur blêr roeddwn yn eu colli). Nodais beth blannwyd, pryd blannwyd nhw ac yn lle gawson nhw eu plannu, er mwyn cynnal rhyw fath o gylchdro cnydau (*crop rotation)*. Dylai cyfeirio'n ôl at y dyddiadur fy helpu i beidio codi llwyni na phlanhigion sydd wedi marw i lawr dros y gaeaf. Cofnodais bethau oedd o ddiddordeb i mi, o ran y byd natur o'n cwmpas, yr adar bach ddaeth i'r ardd, pryd ddaeth y penbyliaid i'r ffosydd, pryd glywson ni'r gog a gweld y wennol gyntaf a gweld yr eira cyntaf ar ben Yr Wyddfa. O ddal ati bob blwyddyn, dwi'n gobeithio medru cymharu'r gwahanol flynyddoedd a dysgu o'u cofnodi. Pwy a ŵyr efallai y bydd o'n ddarllen difyr i rywun heblaw fi, i'r dyfodol.

Wrth arddio dwi'n trio dysgu o'r llwyddiannau a methiannau. Bu'r caraints (moron i bobl bro'r Eco) yn llwyddiannus yn y bocsys ailgylchu gan roi sawl pryd blasus i ni – Nantes, Amsterdam forcing a Purple Sun yn enwedig. Plannais garaints yn y tŷ gwydr ym mis Medi 2022 – wna'i ddim trafferthu eto, doeddwn i fawr elwach. Roedd y rhai blannais i ar ddiwedd yr haf eleni yn well na'r rhai blannwyd yn gynt nag yn eu tymor. Efallai bod hynny i wneud â'r tywydd poeth gawson ni.

Y gaeaf yma plannais gabaets i'w bwyta dros y gaeaf a radicchio – efallai nad ydynt yn fawr ond maent yn ddigon i'r gŵr a minnau. Mae ysgallddail yr enfys (*rainbow chard)* wedi bod yn grêt – ac roeddem yn dal i'w bywta nhw ymhell i mewn i Ragfyr – yn sicr mi fyddai'n plannu'r rhain eto ac yn cofio hau rhai'n hwyrach i gael mwy yn y gaeaf. Dwi hefyd ffansi trio '*kale*'.

Bu'r tatws *Pink Fir Apple* eleni cystal a llynedd – wnes i blannu mwy… 6 yn lle 4 (ocê fawr ddim mwy, ond does gen i ddim lot o le) a chefais gnwd arbennig o dda. Mae rhai dal yn yr oergell yn barod i'w bwyta yn y flwyddyn newydd ac mae gen i datws hadyd yn barod am 2023! Tyfodd y ddwy gorbwmpen (*courgette*), gefais gan ffrind, yn eithaf da yn y tŷ gwydr, digon i mi a'r gŵr, ond maen nhw'n cymryd dipyn o le. Efallai byddai'n well prynnu rhai o siop fferm yn ôl y gofyn.

Bu'r ciwcwymbyrs bach yn llwyddiant ysgubol! Roeddwn i'n dal i'w casglu nhw ym mis Tachwedd! Cefais gnwd bendigedig o *chillis* ac maent yn rhewi'n ddel yn fy rhewgell i ac ambell rewgell gwahanol aelodau o'r teulu yn barod i gyfrannu at gyri a ballu i'r dyfodol. Dim cystal lwc efo'r melon. Roedd bob ffrwyth yn darfod cyn tyfu'n agos i fod yn ddigon mawr i'w fwyta. Gwell na'r llynedd ond dim yn cyfiawnhau ei le yn y tŷ gwydr ar gyfer y flwyddyn nesaf. Doedd y tomatos bach '*Black Opal'* ddim mor ddu a'r hyn oedd ar y paced ond yn tyfu'n iawn ac yn rhoi amrywiaeth bach i'r bowlen salad drwy'r haf. Roedd yr '*Honeycomb*' yn unol â chyngor y ferch glên yn y ganolfan arddio leol, cystal â'r '*Sungold*' arferol. Y siom fwyaf oedd yr hen ffefryn '*Shirley*' wnaeth y ffrwyth ddim cochi a does gen i fawr yn y rhewgell y gaeaf yma. Plan B o ran tomatos felly!

**Tasgau**

1. Gallwch waredu'r goeden Nadolig trwy ei thorri'n ddarnau mân a'i defnyddio fel taenfa [*mulch*] i orchuddio'r pridd. Fel arall os ydach chi'n talu i'r Cyngor Sir am wasanaeth bin brown, gadewch eich coeden wrth ochr hwnnw i'w gwaredu.
2. Darllen drwy eich nodiadau am beth ydach chi wedi ei blannu a beth fyddwch yn ei blannu eleni
3. Os gawn ni rew ac eira, peidiwch a cherdded ar y lawnt. Dadmerwch rhew ar y pwll (gosod desgl neu sosban yn llawn dwr cynnes yw'r ffordd orau) i adael ocsigen yn ôl i'r dŵr. Mae taenaid ysgafn o eira'n insiwleiddio, ond os oes trwch tew, gall falu brigau gwantan! Felly ysgwydwch frigau gwantan y llwyni a gwrychoedd i gael gwared o'r eira. Os oes gynnoch chi dap tu allan mae'n werth ei lagio (*bubble wrap*) i sicrhau nad yw'n rhewi a chreu problemau wrth ddadmer.
4. Glanhewch eich offer tocio mewn dŵr a sebon ac yna hogwch nhw ar galan hogi'n barod at waith yn y gwanwyn.
5. Agorwch ffenestri'r tŷ gwydr ar ddyddiau braf.
6. Defnyddiwch fforch i droi cynnwys eich bin compost. Bydd hyn yn ymgorffori mwy o aer ac yn helpu sylwedd organig (*organic matter*) i dorri lawr yn gyflymach. Insiwleiddiwch y bin efo hen gardfwrdd i gadw'r gwres i mewn.
7. Os nad ydy'r pridd yn rhy wlyb a dydy ddim yn wirion o oer gallwch balu rhannau o'r ardd nad ydach chi eisoes wedi eu plannu.
8. Edrychwch yn ofalus ar y Dahlia, Begonia a'r Canna rhag ofn eu bod wedi pydru.
9. Os am gael teisen neu crymbl riwbob cynnar gallwch roi bwced ar y riwbob i'w berswadio i dyfu'n gynt.

**Rysáit**

Cafwyd cnwd da iawn o afalau yn 2022. Cefais lwyth o afalau gan sawl ffrind a chymydog i ychwanegu at ffrwyth y goeden Enlli fach sydd gen i mewn potyn. Ond erbyn hyn efallai eich bod chi, fel finnau'n dechrau meddwl am beth i'w wneud efo'r rhai rydach chi wedi eu storio'n ofalus yn y sied neu'r garej neu wedi eu rhewi.

Wedi alaru ar darten afal, crymbl afal, saws afal ac eisoes wedi gwneud pob math o bicls? Peidiwch a phoeni os ydach chi angen defnyddio'r rhai sydd ar ôl, beth am drio '*Casserole* Porc ac Afal Mrs R. T. Jenkins?

Mae yna hanes i'r pryd blasus hwn. Pan oedd fy mam yn hogan fach, bu ei mam yn howscipar i'r Athro R. T. Jenkins, hanesydd a darlithydd ym Mhrifysgol Bangor. Pan briododd o efo'i ail wraig, symudodd fy nain oddi yno ac i swydd arall, ond cadwodd mam mewn cysylltiad efo Mrs R. T. (Myfanwy). Mae gen i gof o fynd efo hi am sgwrs ac ambell i swper yn ei fflat ym Mangor Uchaf. Un o'r rysetiau fyddwn i'n ei hoffi oedd y caserol yma. Does gen i ddim mesurau union o gynhwysion, synnwyr y fawd a synnwyr cyffredin, i gyd-fynd efo faint o bobl sydd wrth y bwrdd. Dyma beth fydda i'n ei ddefnyddio i'r ddau ohonom ni acw.

**Caserol Porc Mrs R. T. Jenkins**

**Cynhwysion**

2 stecen porc
1 afal coginio mawr
1 nionyn canolig
2 lond llwy fwrdd o flawd plaen
Saets (*sage*) (ffres neu wedi ei sychu)
Stoc cyw iâr (ffres os ydach chi'n ddigon trefnus, neu ciwb os dydach chi ddim (fel fi))
Halen a phupur gwyn

**Dull**

Tywalltwch y blawd, halen a phupur a saets ar blât a'i gymysgu.

Gorchuddiwch y ddwy stecen yn y gymysgedd .

Pliciwch yr afal a'i dorri'n ddarnau mân.

Torrwch y nionyn yn ddarnau mân.

Rhowch haen o afal a nionyn ar waelod eich sosban/dysgl a gosodwch y ddwy stecen ar eu pen. Gorchuddiwch nhw â gweddill yr afal a nionyn. Tywalltwch y stoc drostynt a choginiwch nhw yn y popty am ryw awr neu ddwy (nes bod y cig yn frau). Blaswch, i weld os oes angen mwy o halen, pupur neu saets. Gallwch hefyd ei goginio ar yr hob. Os ydach chi'n hoffi grefi, gallwch dwchu'r sudd efo blawd neu cornflour, ond does dim rhaid.

I arbed arian beth am roi'r cwbl lot mewn popty araf (*slow cooker*)? Yn ôl rhaglen Radio Cymru, fues i'n gwrando arni'n ddiweddar, mae'n costio 60c yr awr i roi'r popty ymlaen; 40c i roi'r *grill* neu cylch ar yr hob ymlaen ond dim ond 4c yr awr i goginio bwyd yn y popty araf.

Dyma gawson ni'r noson o'r blaen efo dipyn o gabaits o'r ardd a thatws wedi eu stwnsio neu gallwch ei weini efo reis.

Os am fwydo pedwar dyblwch y cynhwysion ayyb. Pryd blasus gan ddefnyddio cynnyrch o'r ardd.

**Rhosyn Mynydd**

# Ar ben arall i'r lein

**Ar ben arall i'r lein**
Yn y rhifyn diwethaf cyfeiriais at raglen ar sianel 5Select. I chi sydd wedi holi, teitl y rhaglen yw 'A Salmon's Journey'. Pleser mawr hefyd oedd tynnu sylw at y diddordeb sydd gan nifer o bobl ieuanc y fro yn y byd genweiriol. Calonogol dros ben yw medru adrodd fod un o'r criw yma yn ystod 2022 wedi ein gwthio ni'r oedolion i'r ochr yn y modd mwyaf ysgubol. Adam Burton, Caernarfon ydi'r boi; a heb os y pencampwr am eleni. Dyma ddaeth ei ffordd yn y Pwyllgor Blynyddol: Tlws Tomi Lovell – i'r aelod sydd wedi gwneud gwaith ardderchog i hybu'r gymdeithas – am ddod yn aelod o dîm rhyngwladol pysgota plu Cymru; Tarian J V Evans – am y gwyniedyn trymaf, sef un am 10 pwys o'r Seiont; ac am y 'sgodyn yma hefyd, Darian Garmon (cyflwynedig gan y diweddar Oscar Evans) am y pysgodyn trymaf o ddŵr y clwb. I'w atal rhag ennill y cwbl, cyfwynwyd Tarian W J Wiliams am yr eog trymaf, i Ian Williams, Llanberis am un 9 pwys o'r Seiont.

Bydd lluniau ar gael yn y rhifyn nesaf.

Dyma'r mis y byddaf yn cael rhyw seibiant ac yn cyflwyno i'ch sylw adroddiad ein Cadeirydd am y flwyddyn.

**Adroddiad 2022**
Ysgrifennaf ar ddiwedd un o'r tymhorau sychaf ers degawdau.

Fe ddechreuodd yn ddigon diniwed - ni fu barrug bron drwy'r gaeaf nes i ni ail-ddechra pysgota ym mis Mawrth, gyda phnawniau braf ond nosweithiau iasoer.

Roedd mis Ebrill yn well - a Llyn y Dywarchen ar dân o'r diwrnod cyntaf. Roedd yr aelodau dewr sy'n mentro ar ddechra'r tymor wedi profi pysgota o'r safon orau gyda brithyll yr enfys yn gafael o'r cychwyn . Roedd dau frithyll brown dros y chwe phwys wedi eu dal yn y pythefnos cyntaf. Mae pysgota mis Ebrill yn Rhyd Ddu weithiau'n waith oer a chaled, ond eleni roedd pysgotwyr yn tyrru yno.

Roedd Mai yn sych, a rhyw hanner lli bach ar ddechrau Mehefin. Unwaith eto dangosodd ambell bysgotwr medrus bod sewin mawr i'w dal yn y Seiont ar ddechrau'r tymor. Ond wedyn i bob pwrpas bu'n sych am dros bedwar mis. Drwy ein cyfnod gorau i bysgota'r sewin ni welson ddŵr, a'r afon mor isel nad oedd posib dychmygu pysgod mudol yn mentro o'r môr. Ni fu llawer yn pysgota'r brithyll oherwydd y tywydd, ond daeth ambell un da i law i'r genweirwyr oedd yn fodlon gweithio'n galed. Roedd brithyll mawr i'w gweld ar ddiwedd y flwyddyn hefyd, wedi eu dal yn ddamweiniol gan bysgotwyr eog.

Roedd sôn bod yr haf cyn waethed â sychder mawr 1976, a gwres llethol yn codi tymheredd y dŵr nes bod peryg i'r pysgod. Mae cymaint o drafod am newid hinsawdd, a gobeithiwn nad y patrwm diweddar fydd trefn y dyfodol. O am haf o dywydd gwlyb diddiwedd, ac ymwelwyr



yn llusgo ar hyd strydoedd Llanberis dan ymbarel a dillad glaw!

Er gwaetha'r sychder, roedd ambell sewin wedi cyrraedd Crawia hyd at ddiwedd mis Awst. Yn nghanol y gwres mawr roedd rhywfaint o deimlad y buasa'n well gadael llonydd i'r pysgod, rhag eu niweidio wrth eu dal a'u rhyddhau. Roedd pysgod yn cael eu dal ar y Llyfni yn ystod yr haf, ond ni welwyd llawer o bysgod mawr tan ddiwedd y tymor.

Roedd llynnoedd Cwellyn, a Nantlle'n arbennig, hefyd wedi cael tymor sâl a hyd yn oed pysgota'r naid nos yn siomedig i'w gymharu â hafau cynt. Prin fu'r sgota ar y Gwyrfai drwy'r haf, ond braf yw adrodd bod eog a sewin o safon wedi eu dal wedi dŵr mis Hydref.

A daeth yr haf â diflastod arall. Rydym ers sawl tymor wedi bod wrthi'n trafod er mwyn ceisio setlo mater ein lês ar gyfer pysgota Padarn, a'r Cyngor yn cyflwyno amodau a rheolau anymarferol i'r pysgotwyr – i gadw draw o'r glannau a pheidio mynd o flaen neb yn nofio neu'n hwylfyrddio ag ati tra bod y prysurdeb ar wyneb y llyn drwy fisoedd yr haf yn cynyddu, yn cynnwys mannau ble mae posib dadlau nad oes gan neb ond ein haelodau hawl i fyned efo cwch. Ac yn Llanberis, er pob gwahardd ac arwydd gan yr un Cyngor does dim rheolaeth ar faniau a cheir yn gwersylla dros nos heb ddim mwy na'r un cyfleuster cyhoeddus ac ambell fin sbwriel. Mae cannoedd yno drwy'r dydd a'r nos. A'r bore bach drwy'r haf yn datgelu llanast drwy'r safle, biniau gorlawn a bagiau wedi ei rhwygo gan adar ac anifeiliaid ar hyd y lôn a'r llwybrau. Heb sôn am y budreddi nad oes modd ei weld ond y mae posib ei ddychmygu.

Ond does dim dwywaith bod Dywarchen wedi serenu eleni. Roedd brithyll brown wedi eu stocio o Crawia dipyn ar y tro drwy'r tymor, a'r pysgod a ddaliwyd yn werth eu gweld. Mae'n debyg bod uchder y Llyn ym mhen y dyffryn wedi lleihau effaith y tywydd. Hwyl oedd ail-ddysgu ymddygiad brithyll yr enfys mewn dŵr cynnes – nid yn unig yn tynnu dan y dŵr ond yn dilyn plu ar y wyneb bron at ein traed, neu ochr y gwch cyn gafael – neu cilio'n ôl i'r dyfnder. Mae costau ynghlwm, ond gobeithiwn ddilyn yr un patrwm stocio yn ystod 2023. Cafodd ymwelwyr a rhai lleol oedd yn newydd i'r gamp lwyddiant hefyd, a bu'r cynllun "Fishing Passport" i werthu'n tocynau ar-lein yn fuddiol i'r Gymdeithas.

O'r diwedd, cafwyd lli ar ddechrau Hydref, a sewin ac eog wedi eu dal ar y tair afon. Yn anffodus mae'r niferoedd, a nifer y pysgod glân yn arbennig, yn siomedig ond mae hyn i'w weld drwy Brydain. Mae pwysigrwydd iechyd ein dyfroedd yn fwy amlwg nag erioed, er mwyn gwneud y mwyaf posib i hybu'r eog a'r sewin sy'n atgenhedlu'n llwyddiannus. Tybiwn fod ansawdd dŵr Padarn wedi gwella ers 2009, ond roedd llif isel 2022 yn amlygu arllwysion gweithfeydd trin carthion y dalgylch ac rydym wedi holi sawl gwaith gyda'r awdurdodau am driniaeth y gwastraff.

Bu cyfle i wneud gwaith o dorri coed ar rai o'r pyllau. Roedd angen parhau i dorri'r glannau, cynnal a chadw pontydd, camfeydd a giatiau, a stocio Dywarchen. Criw bach sydd wrthi, a diolch yn fawr i bawb am eu gwaith. Wedi'r sychder daeth glaw, a hwnnw'n treiddio i lawr corn y cwt yn Crawia, ond o fewn dyddiau roedd corn newydd yn ei le a'r wal wedi ei atgyweirio'n daclus, a'r cwt yn fwy clyd nag erioed. Bu aelodau hefyd yn mwynhau tra'n cefnogi'r Gymdeithas ar achlysur Ffair Gêm y Faenol ym mis Medi. Roedd ein stondin yn brysur dros dridiau'r ŵyl, a llawer o ddidordeb yn ein dyfroedd, aelodaeth a'r gwersi castio. A lot fawr o siarad a sgwrsio. Diolch eto i bawb sydd wedi helpu yn ystod 2022, yn aml yn ddistaw bach tu ôl i'r llenni.

Mae diddordeb dyddiol yn ein tudalen Facebook: llawer yn canmol y cynnwys ac eraill yn holi am docynnau, manylion y pysgota ac yn y blaen. Cofiwch roi newyddion a llunia arno i gynnal y diddordeb. Rydym wedi trefnu gwefan newydd sydd wrthi ar hyn o bryd yn cael ei ail-wneud.

Bu Melin y Cim yn brysur eto, ac mae wedi cyfrannu'n sylweddol at ein hincwm. Gobeithiwn bydd hyn yn parhau.

Bydd y Cyfarfod Blynyddol am y tro cyntaf ers Rhagfyr 2019, a gobeithiaf y bydd aelodau'n mynychu.

Diolchaf ar eich rhan i bawb sydd wedi cyfrannu at weithgareddau'r Gymdeithas yn ystod y flwyddyn, a pharhau i'n cefnogi.

Hoffwn ddiolch yn arbennig ar ddiwedd y flwyddyn i'r Ysgrifenydd am ei waith yn 2022. Ond, unwaith eto tynnaf eich sylw at y ffaith ei fod wedi rhoi degawdau o wasanaeth a'i bod yn amser bellach iddo drosglwyddo'r cyfrifoldeb. Byddai cael aelod yn cynnig helpu yn gyfle i sicrhau llwyddiant y Gymdeithas i'r dyfodol.

Ar ran y swyddogion hoffwn gynnig y dymuniadau gorau i chi a'ch teuluoedd dros y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a gwell hwyl efo'r enwair yn 2023.
**Dr R. Parry, Cadeirydd**

## Cornel Ddarllen

Gyda Chwpan y Byd ymlaen yn Qatar, roedd hi'n anorfod bod llyfrau pêl-droed Cymru yn mynd i fod yn boblogaidd iawn ym mis Tachwedd, ac wrth gwrs, mae hi wedi prysuro nawr gyda phobl yn chwilio am anrhegion Nadolig. Cafodd Eirian y pleser o werthu llyfrau mewn dau ddigwyddiad lleol i ddathlu cyhoeddi **Braw Agos**, gan Sonia Edwards yn Galeri, a'r **Wal Goch**, yng nghwmni'r Golygydd Ffion Eluned, Tudur Owen ac eraill yng Nghlwb Pêl-droed Caernarfon ym mis Tachwedd. Cafwyd noson gynnes a hyfryd iawn yn dathlu cyhoeddi **Ystlum**, cyfrol o farddoniaeth deimladwy iawn gan Elen Ifan, fu'n byw yng Nghaernarfon am sawl blwyddyn.

Bydd ffans Manon Steffan Ros wrth eu bodd gweld bod 'na nofel newydd wedi ei gyhoeddi ganddi hi, ac mae perchennog Siop y Glorian, Dan Hunt wedi hunan-gyhoeddi **Foodifesto**, cyfrol am y diwydiant bwyd, a sut mae gennym ni gyd gyfle i newid y ffordd yr ydym yn cynhyrchu, dosbarthu, prynu a bwyta bwyd yn well.

### 10 UCHAF TACHWEDD 2022:

1. **Cwpan y Byd Qatar 2022**
2. **Braw Agos**, Sonia Edwards
3. **Y Wal Goch**, gol. Ffion Eluned
4. **Sgen I'm Syniad**, Gwenllian Ellis
5. **Cwlwm**, Ffion Enlli
6. **Powell**, Manon Steffan Ros
7. **Ystlum**, Elen Ifan
8. **Llen Gwerin Bangor a'r Cyffiniau**, Howard Huws
9. **Foodifesto**, Dan Hunt
10. **Nadolig Bardd**, gol. Mererid Hopwood a Tudur Dylan Jones

Mae 'na ddewis gwych o lyfrau newydd i oedolion ac i blant a phobl ifanc, yn Gymraeg ac yn Saesneg ar gael yn y siopau ar hyn o bryd, ac mae llyfr bob amser yn anrheg dda i'w roi, ac yn gymharol resymol o ran pris. Mae 'na ddewis o lyfrau i blant am lai 'na £5, ac mi gewch chi nofel neu gofiant neu hanesyn gwerth chweil am lai 'na £10, ac, wrth gwrs, mi fyddwn ni ar agor tan 4 noswyl Nadolig ar gyfer unrhyw siopa munud olaf sydd gan bobl i'w wneud.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllenwyr Eco'r Wyddfa.

***Eirian James***



## NANT PERIS

**Eglwys Sant Peris**
**17eg Rhagfyr** am 5.30 yr hwyr ceir perfformiad o, 'A Christmas Carol'.
**24ain Rhagfyr**, Noswyl Nadolig, 11.30 yr hwyr - Cymun Bendigaid

## CWM Y GLO

Ni fydd Hilda Orritt o Moranedd, Cwm y Glo yn anfon cardiau Nadolig eleni, ond dymuna Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'w theulu, ffrindiau a chymdogion.

## NANT PERIS

**Ymddiheuriad**
Yn anffodus aeth newyddion y mis diwethaf ar ddisberod yn y post. Erbyn cyrraedd pen eu taith roedd yr amlen a'r cynnwys wedi eu rhwygo, ac mor wlyb fel na ellid ei ddarllen. Ddau ddiwrnod cyn cyrraedd y dyddiad cyhoeddi y daeth y cyfan i'r amlwg, a'r Eco erbyn hynny eisoes wedi ei anfon i'r Wasg. Cafodd derbynydd y newyddion ymddiheuriad am gyflwr yr amlen a'r cynnwys.

**Marwolaeth**
Anfonwn ein cydymdeimlad at deulu'r diweddar John B. Jones, Ceris, Deiniolen. Bu i Mary ac yntau briodi yng nghapel Dinorwig cyn ymgartrefu'n gyntaf ym Methel ac yna yn Neiniolen. Cafwyd teyrnged haeddiannol i John yn rhifyn diwethaf yr Eco. Dymuna Mary a'r teulu ddiolch i bawb am eu caredigrwydd ac am bob arwydd o gydymdeimlad yn eu colled.

**Marwolaeth**
Bu farw Mrs Eurwen Griffith, Talysarn, (Jones gynt o 7 Maes Eilian). Un o blant Ysgol Dinorwig ac Eglwys Sant Mair. Cydymdeimlwn â'i gŵr, ei phlant a hefyd â'i brawd David John a'i chwaer, Nancy, y ddau yn byw yng Nghaernarfon. Cynhaliwyd gwasanaeth preifat yn y tŷ ac yn gyhoeddus ym mynwent Penygroes.

**Swydd newydd**
Llongyfarchiadau i Nia, Bryn Sardis ar ei llwyddiant yn y coleg ac ar dderbyn swydd saer coed gyda chwmni Adra.

**Genedigaeth**
Llongyfarchiadau i Catrin, Bryn Sardis ar enedigaeth merch fach, Siwan, wyres gyntaf i nain a taid, Bryn Sardis a gor-wyres i hen nain Penisarwaun. Mae Catrin a'i gŵr Sion a Siwan yn byw yn Llanfaglan.

**Cofion**
Anfonwn ein cofion fel ardal at bawb sy'n wael, gan obeithio y cewch oll adferiad iechyd i fwynhau'r Nadolig.

Dymunwn Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb.






Chwilota

Erthyglau hanes lleol,
Bro Eco'r Wyddfa.

chwilota.wordpress.com

# Medal y Brenin i weithiwr o Lanrug

Ar y 13eg o Fehefin 1909 roedd Rowland Jones yn ysgrifennu llythyr o Witwatersrand, De Affrica at ei chwaer Elizabeth  Does wybod pryd y cyrhaeddodd y llythyr hwnnw Elizabeth Jones yn ei chartref, y Fron Hyfryd, Llanrug. Efallai nad oedd neb yn Llanrug wedi clywed am yr hyn a ddigwyddodd yn Ne Affrica beth amser ynghynt, ond buan y byddai'r newyddion yn lledaenu drwy'r pentref a'r ardal yn gyffredinol. Dyma sydd gan Rowland Jones i'w adrodd i'w chwaer: *"Wel, yr oedd yn ddiwrnod mawr yma ddoe; yr oedd John yn cael Medal y Brenin. Yr oedd Lord Selborne yn ei gyflwyno fo iddo ar ran y Brenin. Yr oedd prif ddyn y Cwmni yma yno, ac fe introduciodd John i Lord Selborne. Yr oedd yma rai cannoedd o bobl, ac yn eu plith rhai o brif ddynion Johannesburg. Yr oedd y Cwmni wedi gwneud darpariadau helaeth iawn gogyfer a'r amgylchiad; y lle wedi ei wisgo a banerau. Pe buasai Tywysog yn cael ei anrhydeddu, ni fuasent wedi gwneud mwy. Mi anfonaf bapur yr wythnos nesaf; mi gewch yr hanes i gyd yn hwnnw, a gweld darlun o'r medal a John."*

Beth felly oedd achos yr achlysur hwn o gyflwyno Medal y Brenin i John Jones, gynt o'r Fron Hyfryd, Llanrug? Roedd John, ei frodyr William a Rowland, fel amryw eraill o ddynion ieuanc y fro wedi mudo i Dde Affrica i chwilio am waith; yn y gweithfeydd aur yn bennaf, ond hefyd yn rhan o gannoedd o weithwyr yn adeiladu rheilffyrdd ar draws y wlad. Y gwaith aur oedd y dynfa i'r brodyr, ac yr oeddent yn gweithio i gwmni Witwatersrand Gold Mining Company Ltd. Yn gynharach yn y flwyddyn 1909 bu damwain angheuol yn y gwaith aur. Gadawaf i Rowland Jones adrodd yr hanes unwaith yn rhagor - y tro hwn mewn llythyr i'w frawd yn y Fron Hyfryd: *"Mae yma ddamwain druenus wedi digwydd trwy'r hon y collodd Robert Owen Tal y Bont a Griffith Glansaint eu bywyd."* Yr oedd Tal y Bont yn dyddyn gyferbyn â'r Fron Hyfryd, a Glansaint yn fferm yn ardal Pontrug.  Felly, roedd dau o gyfoedion y tri brawd wedi eu lladd yn y ddamwain. Mae Rowland yn apelio ar i'w frawd fynd i Dal y Bont i dorri'r newyddion drwg i'r teulu: *"Rwyf am i ti fynd i Dalybont at Jeffrey, brawd Robert, i dorri'r newydd iddo, ac yntau i'w rieni. Yr o'wn yn meddwl mai dyma'r ffordd orau, yn hytrach nac ysgrifennu at ei dad a'i fam."*

Mae'n mynd yn ei flaen i ddisgrifio'r hyn ddigwyddodd. *"Yr oedd boy Kaffir i Robert wedi ei orchfygu gan nwy, ac aeth Robert ato i drio ei*





Witwatersrand Gold Mining Co., Ltd.

ADMISSION CARD

On the occasion of the presentation of King Edward VII. Medal of the First Class by
His Excellency the Governor
to
John Jones,
at the Witwatersrand Mine Recreation Hall at 4 p.m., on Saturday, 12th June, 1909.

THIS TICKET MUST BE PRESENTED AT THE DOOR.

*gael oddi yno, ac yr oedd yn methu, ac fe alwodd am help, ac fe aeth Griffith Glansaint a John, fy mrawd ato i'w gynorthwyo. Gorchfygwyd Robert a Griffith gan y nwy, ac fe fethont a dod i fyny. Fe fuodd yn galed ar John, ac oni bai iddo gael help, buasai wedi cyfarfod yr un dynged, oherwydd yr oedd wedi mynd yn anymwybodol erbyn iddo gyrraedd y top. Roedd Robert a Griffith wedi syrthio, ac erbyn i gymorth eu cyrraedd, roedd yn rhy bell i allu daearol eu hachub."*  Yn ôl Rowland, taflodd y ddamwain gwmwl du dros yr holl waith, yn enwedig y Cymry eraill oedd yn gweithio yno. Un arall o'r ardal oedd Jack Roberts o Gwm y Glo, ac yr oedd hwnnw hefyd wedi anfon llythyr maith gartref i'w dad yn adrodd y manylion am y ddamwain. Tybed a yw'r llythyr hwnnw wedi ei gadw gan aelodau o'i deulu?

Claddwyd Robert a Griffith ym mynwent New Primrose, a chafwyd gwasanaeth yn Gymraeg, gyda'r ddau wedi eu claddu yn ymyl ei gilydd. Unwaith eto, Rowland Jones sy'n adrodd yr hanes mewn llythyr arall i'r teulu yn y Fron Hyfryd: *"Yr oedd llawer iawn o Gymry wedi dod i dalu'r gymwynas olaf iddynt, rhai ohonynt wedi teithio dros ddeg milltir ar hugain."* Y Parchedigion E. Davies, Boksburg ac R.M.Jones (Tal o Fôn) oedd yn eu claddu, a chanwyd dau emyn Cymraeg ar lan y bedd –'Yn y dyfroedd mawr a'r tonnau' a 'Bydd myrdd o ryfeddodau'.

Yn y cyfamser, roedd sôn am wrhydri John yn ceisio achub y tri er gwaethaf effeithiau'r nwy, yn lledu drwy'r holl waith a thu hwnt – *"mae ei ddewrder yn destun siarad ar hyd y Rand."* Wrth ddiweddu ei lythyr mae Rowland Jones yn nodi fod *"manager y gwaith yma yn mynd i drio cael Medal y Brenin iddo."*  Ac felly y bu. Ar brynhawn Sadwrn 12fed o Fehefin 1909 yn y Witwatersrand Mine Recreation Hall cyflwynwyd y fedal i John Jones.

Aros yn Ne Affrica fu hanes y brodyr, ond gwta chwe blynedd yn ddiweddarach, bu John Jones farw. Unwaith eto, Rowland sy'n anfon y newyddion gartref i Lanrug. Yr oedd William, y trydydd brawd gyda John pan fu farw yn yr ysbyty ar fore Sul, 14eg o Dachwedd 1915. Fe'i claddwyd yntau, fel Robert Owen, Talybont a Griffith Glansaint ym mynwent New Primrose, gyda nifer helaeth o Gymry wedi dod ynghyd i'r angladd. Mae llythyr Rowland yn diweddu gyda'r geiriau *"nid oes gennyf ond anfon ein cydymdeimlad a chwi i gyd yna, a chofia ni at yr hen fam."*

Gyda diolch i Gwynfor Jones, Caernarfon (Llanrug gynt) am gael benthyg copïau o'r llythyrau a lluniau sy'n adrodd yr hanes. Roedd tad Gwynfor, y diweddar Alun Glyn yn fab i un arall o frodyr y Fron Hyfryd.

**Cysylltiadau Teuluol - Rhyfeddol.**

Mae'n rhyfeddol gymaint o gysylltiadau teuluol sydd wedi dod i fy sylw dros y mis neu ddau diwethaf. Yn gynharach eleni bûm yn olrhain teulu Bron Fedw a Chaeaugwynion, Betws Garmon. Cyd-ddigwyddiad oedd i wraig o'r America ddod i'r ardal i chwilio am hanes ei theulu – o Blas y Nant a Chaeaugwynion – ac wedi iddi ddod i gysylltiad â mi, ddatgelu fod ganddi ewyllys yn dyddio o 1831 oedd ym meddiant un gangen a oedd wedi mudo i'r America yn 1845. Gyda'r wybodaeth yn yr ewyllys roedd yn bosib datrys pwy oedd y Thomas Hughes (a'i wraig, Anne) a ewyllysiodd Ty'n weirglodd a Chaeaugwynion i'w feibion Humphrey a Richard, ac nid y Thomas Hughes (a'i wraig, Jane) oedd yn denant yng Nghaeaugwynion ar yr un cyfnod, ond sydd wedi ei gofnodi yn llyfrau 'Achau' T. Ceiri Griffith fel mab y perchennog. Ac fe soniais dros flwyddyn yn ôl yn y golofn hon am ddau aelod arall o'r un teulu, sef clochyddion Betws Garmon – Humphrey Hughes a'i ferch Appolonia – oedd yn byw yn Pentra bach. A daeth cais am wybodaeth ddiwedd Tachwedd ynglŷn â'r rheini gan un o ddisgynyddion Humphrey. Roedd y cais hwn yn nodi cysylltiad hefyd â theulu o glochyddion yn Llanrug. A phwy feddyliai fod hen nain y brodyr sy'n cael sylw yn yr hanes uchod o Dde Affrica yn briod â mab un o glochyddion Llanrug?  Ac yn fwy rhyfeddol, ddiwrnod yn ddiweddarach daeth cais am deulu yn Llanberis, oedd â chysylltiadau â Maes y Dref, Llanddeiniolen. A choeliwch neu beidio, ond roedd un o hynafiaid teulu Maes y Dref hefyd yn deillio o deulu Caeaugwynion.

Bydd angen wal gyfan i geisio nodi'r holl gysylltiadau hyn!

Os oes gennych unrhyw ymholiad am agweddau o hanes ardal bro'r 'Eco' (hyd yn oed cysylltiadau teuluol !!!) yna cysylltwch â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon LL55 4BA neu e-bostiwch dafydd. wthomas@btinternet.com neu ffoniwch 01286 673515.



# Y CHWIBAN OLAF



Wedi 37 o flynyddoedd dyma fi'n llunio f'erthygl olaf fel Gohebydd Chwaraeon yr Eco. Taith hir o gofnodi, llongyfarch, mynegi barn, datblygiad, cefnogi a dadlau. Yr un peth yr wy'n sicr ohono yw nad oes yr un papur bro wedi rhoi sylw dros cymaint o sylw i gymaint o gampau. Ie, bro'r bêl-droed yn bennaf yw Bro'r Eco, ond llanwyd y colofnau ag athletau, rhedeg mynydd, rygbi, criced, hoci, gymnasteg, hwylio, dartiau, nofio, snwcer, bowlio dan do, rasio moto-beics … Os oedd camp, roedd yr Eco yno. Roedd cefnogi ymdrech llawer i gynnal neu sefydlu clwb yn elfen bwysig. Ceisiais hefyd gyflwyno elfennau cenedlaethol o gampau Cymru, gan fy mod yn credu fod croniclo a thrafod campau drwy gyfrwng y Gymraeg mewn print yn wantan iawn o hyd. A bu'r iaith yn naturiol a'i datblygiad yn nherminoleg byd y campau yn elfen i'w thrysori. A'r datblygiadau rhyfeddol.

Cymru fach am yr ail dro yn fy oes i yn cymryd ei lle ar lwyfan byd y bêl-gron, a chan y Eco ohebydd yno i groniclo'r daith o wynt a glaw Caerdydd i wres Qatar. Cawn edrych yn ôl ar erthyglau Mared mewn blynyddoedd i ddod. Yr un modd, gallaf ryw dro edrych yn ôl drwy gyfrwng gwefan yr Eco i'm hatgoffa o sawl stori. Fel dyfarnwr, Llanrug 17 - Prifysgol Bangor 0. Tlws CPC yn dod i Eithin Duon (a'r Eco yr unig bapur a gynrychiolwyd yn lloc y wasg yn y Rhyl y diwrnod hwnnw). Cwpanau Cenedlaethol i Ysgol Brynrefail. Y wefr o nodi fod Llanberis, Llanrug, Deiniolen a Bethel wedi codi'r Junior Cup yn eu tro, a sawl tlws arall. Dygnwch Waunfawr heb gae yn y pentref. Datblygiad pêl-droed merched yn lleol ac yn genedlaethol. Y newid yn strwythur pêl-droed oedolion. Y 'Caernarfon and District', meithrinfa cymaint ohonom. Cynghrair Gwynedd. Yr Alliance. Jiws, Dafydd Mona … Dyfodiad y Gynghrair Genedlaethol a gafodd sawl trafodaeth arni yn yr Eco. Heddiw, cynghreiriau ardal a haenau. Pob clwb yn ffeindio'i haen briodol dros gyfnod. Datblygiad pêl-droed ieuenctid – bechgyn a merched – a'r llwybr drwy'r Academis bellach. O ia, am flynyddoedd trefnu'r annwyl gystadleuol Dlws yr Eco i bêl-droedwyr a phêl -rwydwyr.

Tybed sawl plentyn yn yr ardal sydd â medal Tlws yr Eco yn y drôr yn rhywle. Trist oedd gweld cyfnod y Tlws yn dod i ben tra oedd tyfiant aruthrol yn lleol yn y gamp. Dwy, tair noson mewn un wythnos am sawl blwyddyn a unodd fro yn gystadleuol a hwyliog. Faint o gŵn poeth neu fyrgyrs – hefo nionod – a lyncwyd tybed?

Dyma bellach ardal dwy ras ryngwladol enwog a safonol – Ras yr Wyddfa a Marathon Eryri. Ond, diolch i Dafydd Whiteside, mae'r 'lleol' hefyd wedi cael sylw: rasys nos Fawrth; ffurfio, a datblygiad Clwb Rhedwyr Eryri; y festiau cenedlaethol a wisgwyd; sawl ras 7k neu 10k leol i godi arian at elusen anghenus. Oedd, roedd yr Eco yno.

Yn ei dro daeth cyfle i dalu teyrngedau i rai a fu'n cynnal y fflam ac yn ennill parch – Twm John, Cwil Goli, Huwi Reffari … ac ambell englyn coffa.

Oherwydd cysylltiad nifer o drigolion bro'r Eco â hwy, mabwysiadwyd timau Clwb Criced Fron Dinas, Clwb Rygbi Caernarfon a Chlwb Hoci Caernarfon fel ein timau ni.

Bro sy'n gyforiog o gampau amrywiol yw Bro'r Eco. Gobeithio fy mod dros y cyfnod hir wedi adlewyrchu hynny a dangos fy malchder yn llwyddiannau'r fro arbennig hon.

Gobeithio y bydd yr Eco'n llwyddo i sicrhau olynydd, boed unigolyn neu bâr yn cyd-weithio. Mae'r cynfas yn eang ac mae'n werth rhoi lliw arni. Dyma gyfle efallai i rywun ieuanc gymryd yr awenau a magu profiad ym myd newyddiaduraeth. Do, fe dderbyniais sawl galwad oddi wrth y BBC ac S4C yn gofyn am fwy o wybodaeth am elfen o storiau a ymddangosodd yn yr Eco.

Braint oedd cyflawni'r swydd yma, a diolch am gyfraniad llawer. Wir i chi, nid papur di-nod 'mewn cilfach gefn' yw'r Eco. Dowch â'ch egni a'ch brwdfrydedd a 'sefyll yn y bwlch'. Da ni 'Yma o Hyd'.

Fe erys un cwestiwn heb ei ateb. Y cyhuddiad oesol yr wyf wedi ei wynebu – 'Boi Llanrug ydi o! neu 'Boi Llanberis ydy o!' Yr ateb, 'Boi y campau a boi Bro'r Eco!' Dymuniadau gorau i'r Olynydd, a diolch i'r llu o gyfranwyr dros y blynyddoedd. Nadolig Llawen i chi i gyd.

Ai un gêm hir hen gymeriad – dy yrfa
â'i darfod fel batiad?
Ond rhyw rif, rhyw gofnod rhad?
Na,'r prawf oedd rhannu'r profiad.

ISSN 2516-7235



Royal Victoria Hotel LLANBERIS
www.theroyalvictoria.co.uk

Dathliadau ● Achlysuron Arbennig ● Cynadleddau
Pwyllgorau ● Bwydlen Bar
● PRIODASAU ●

Ffôn - 01286-870253
enquiries@theroyalvictoria.co.uk



Tyddyn Teg
Bwyd - Tir - Pobl

LLYSIAU LLEOL FFRES

Ymunwch â'n cynllun llysiau!

Dewch i'n siop!

- Rydym bob amser gyda llysiau blasus a ffres o'n caeau a'n twneli polythen.
- Rydym wedi ein lleoli ym Methel ar y ffordd tuag at Llanrug.

Cysylltwch â ni: 07599 813777
info@tyddynteg.com
Neu ewch i'n gwefan: www.tyddynteg.com